

jCais am dystiolaeth agored – Achosion Da'r Loteri Genedlaethol: Ariannu'r hyn sy'n bwysig i chi

Ymateb gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

Cynnwys

Crynodeb gweithredol.....	2
1. Cyflwyniad	3
Y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Treftadaeth: gwneud bywyd yn well i bobl a chymunedau	3
Sut rydym yn gweithio	4
Ein hymateb.....	5
Astudiaethau achos	5
2. Ariannu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd	7
Gwerth treftadaeth i fywydau pobl a chymunedau'r Deyrnas Unedig.....	7
Sicrhau ein bod yn ariannu'r dreftadaeth sy'n bwysig i bobl a chymunedau	8
Dull sy'n seiliedig ar le	13
3. Grymuso cymunedau	19
Sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau	19
Cynnwys cymunedau'n fwy yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt	21
Grymuso grantïon ym mhob cam o'r daith grant	23
4. Symleiddio mynediad a lleihau biwrocratiaeth	26
Lleihau'r rhwystrau i gyrchu ein hariannu	26
Defnyddio dull cymesur o ariannu	27
5. Cyflwyno'n effeithiol ac yn effeithlon ac mewn partneriaeth.....	28
Cydweithio ar draws teulu'r Loteri Genedlaethol.....	28
Partneriaeth a chydweithredu â CHB treftadaeth eraill	30
Gweithio'n fwy effeithlon.....	31
Mabwysiadu technolegau newydd a deallusrwydd artiffisial (AI).....	32
6. Y camau nesaf.....	34

Crynodeb gweithredol

Mae'r Loteri Genedlaethol yn gwneud bywyd yn well i bobl ym mhob gwlad a rhanbarth o'r Deyrnas Unedig. Yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, rydym yn buddsoddi arian chwaraewyr y Loteri Genedlaethol mewn prosiectau treftadaeth sy'n bwysig i bobl ac i gymunedau.

Mae'r Cais am Dystiolaeth Agored – Achosion Da'r Loteri Genedlaethol: Ariannu'r hyn sy'n bwysig i chi yn nodi uchelgais i gyfraniad y Loteri Genedlaethol gael ei siapio gan y cyhoedd a bod yn hygyrch i bawb. Rydym yn rhannu'r uchelgais honno ac eisoes yn chwarae ein rhan i wireddu hyn.

- **Rydym yn buddsoddi mewn lleoedd i bawb, ym mhobman yn y Deyrnas Unedig** – gan sicrhau bod ariannu ar gael ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU, gan fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le a helpu pawb i elwa o gefnogaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth.
- **Rydym yn gwneud penderfyniadau yn agos at y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu** – mae 95% o'n penderfyniadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol yn yr ardal neu'r wlad lle bydd prosiect yn elwa o'n hariannu.
- **Rydym yn gadael i bobl a chymunedau benderfynu beth mae treftadaeth yn ei olygu iddyn nhw** – treftadaeth yw'r hyn y mae pobl heddiw eisiau ei gadw a'i drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn gadael i bobl benderfynu beth sydd fwyaf pwysig iddyn nhw. Rydym yn cefnogi cymunedau i ddatblygu prosiectau ac yn eu helpu i'w cyflwyno'n llwyddiannus. Rydym yn sefyll gyda nhw ym mhob cam o'r daith grant.
- **Rydym yn buddsoddi yn y lleoedd mwyaf difreintiedig** – mae pawb yn haeddu elwa o ariannu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth. Mae ein dull gweithredu'n golygu nad yw pobl sy'n byw mewn lleoedd â phrofiad o anfantais ddwbl yn colli allan.
- **Rydym yn cefnogi buddsoddi sy'n creu twf a swyddi** – rydym yn gweithio gyda grantïon a phartneriaid fel bod manteision economaidd a chymdeithasol treftadaeth yn cael eu teimlo ym mhob man, gan gyfrannu at adnewyddu cenedlaethol ac adfywio lleol.
- **Rydym yn sicrhau ei fod mor hawdd â phosibl i gyrchu ein hariannu** – rydym yn gweithredu un rhaglen grantiau gydag un drws blaen, gan wrando ar ein hymgeiswyr fel ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Fel dosbarthwr Loteri Genedlaethol profiadol, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (Cronfa Treftadaeth) mewn sefyllfa dda i gefnogi'r uchelgeisiau a nodir yn y cais am dystiolaeth.

1. Cyflwyniad

Y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Treftadaeth: gwneud bywyd yn well i bobl a chymunedau

Mae'r Loteri Genedlaethol wedi trawsnewid bywydau pobl a chymunedau ym mhob gwlad a rhanbarth o'r Deyrnas Unedig. Ers 1994, mae effaith y buddsoddiad gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi bod yn enfawr, gyda bron i £53biliwn wedi'i ddarparu ar draws yr achosion da. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Gronfa Treftadaeth wedi bod yn rhan o'r stori lwyddiant hon.

A ninnau wedi buddsoddi dros £9.2bn mewn mwy na 48,000 o brosiectau, ni yw ariannwr treftadaeth mwyaf y DU. Gan ddefnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, rydym yn helpu cymunedau i siapio, gwarchod a dathlu'r dreftadaeth sy'n bwysig iddyn nhw, gan gryfhau balchder bro, perthyn a hunaniaeth leol. Rydym yn gwybod bod pobl yn gwerthfawrogi eu treftadaeth, a bod buddsoddi mewn prosiectau treftadaeth yn gwneud bywyd yn well i bobl a chymunedau. Trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl leol ar draws y DU rydym yn sicrhau bod ein hariannu'n cefnogi lleoedd i ffynnu trwy ysgogi adfywio sydd wedi'i wreiddio mewn treftadaeth, cefnogi adferiad byd natur, creu sgiliau a chyfleoedd a helpu cymunedau i adeiladu dyfodol mwy gwydn.

Credwn y gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol y mae pobl yn ei werthfawrogi ac eisiau ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Drwy ein [strategaeth Treftadaeth 2033](#), rydym yn buddsoddi ar gyfer yr hirdymor drwy brosiectau uchelgeisiol a arweinir yn lleol, sy'n cysylltu pobl â'u lleoedd ac yn cyflwyno newidiadau parhaol. Rydym yn canolbwyntio ein cefnogaeth ar dreftadaeth y DU gan ddefnyddio pedair egwyddor fuddsoddi sy'n sail i'n dull o ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Rydym yn croesawu'r cais am dystiolaeth agored ar Achosion Da'r Loteri Genedlaethol: Ariannu'r hyn sy'n bwysig i chi. Rydym yn rhannu ymrwymiad llywodraeth y DU i "adeiladu ar lwyddiannau'r Loteri Genedlaethol tra'n sicrhau bod arian achosion da'n parhau i gyflwyno blaenoriaethau'r bobl am flynyddoedd lawer i ddod". Rydym yn falch o'n rhan yn y llwyddiant hwn, gan gydnabod ar yr un pryd bod angen i'r Loteri Genedlaethol fod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae ein profiad a'n harbenigedd yn golygu bod gennym lawer i'w gyfrannu at y cais am dystiolaeth, ac i helpu ymateb i gyfleoedd a heriau'r dyfodol. Mae'r ymateb hwn yn rhan bwysig o hynny, a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â llywodraeth y DU wrth iddi weithredu ar ganfyddiadau'r cais am dystiolaeth dros y misoedd i ddod.

Mae llywodraeth y DU wedi nodi tair cred syml i dywys ei hymagwedd at ddyfodol ariannu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da: chi sy'n berchen ar yr ariannu hwn; chi ddylai wneud y penderfyniadau; ac ni ddylai biwrocratiaeth rwystro eich uchelgais. Mae ein hymateb i'r cais am dystiolaeth yn cymryd pob un yn ei dro, gan ddangos sut rydym yn cymryd y rhain i ystyriaeth, a sut y gall ein profiad a'n mewnwelediadau lywio datblygiadau'r dyfodol yn gadarnhaol.

- Chi sy'n berchen ar yr ariannu hwn: yn y Gronfa Treftadaeth rydym yn cydnabod ein bod yn stiwardiaid arian cyhoeddus chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a'n bod yn buddsoddi hwn ar ran y cyhoedd.
- Chi ddylai wneud y penderfyniadau: rydym yn cytuno bod angen i benderfyniadau fod yn ddilys yn llygaid y cyhoedd, y gall eu mewnwelediadau a'u gwybodaeth hefyd helpu i wneud y penderfyniadau gorau.
- Ni ddylai biwrocratiaeth rwystro eich uchelgais: rydym wedi ymdrechu i ddileu'r fiwrocratiaeth a all fod yn rhwystr i bobl a chymunedau. Nod yr wybodaeth y gofynnwn amdani yw cefnogi parodrwydd ymgeisydd i fuddsoddi a chyflwyno prosiect.

Rydym yn gweld yr ymateb hwn fel y cam cyntaf yn ein deialog â llywodraeth y DU ar ddyfodol y Loteri Genedlaethol.

Sut rydym yn gweithio

Rydym yn gorff hyd braich a noddur gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), sy'n gyfrifol am ddosbarthu cyfran treftadaeth ariannu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer achosion da ar draws y DU. Mae ein Cytundeb Fframwaith gyda DCMS a'n cyfarwyddiadau polisi ar gyfer y DU, Cymru, Lloegr a'r Alban – gyda chyfarwyddiadau drafft ar gyfer Gogledd Iwerddon yr ymgynghorwyd arnynt yn 2022 – yn gosod cyd-destun ein gwaith.

Mae ein cadeirydd a'n Bwrdd Ymddiriedolwyr yn benodiadau cyhoeddus. At hynny, mae gennym chwe phwyllgor ardal a gwlad lleol, sy'n cwmpasu'r gwledydd datganoledig a thair ardal o Loegr (Gogledd Lloegr, Llundain a De Lloegr, a Chanolbarth a'r Dwyrain Lloegr), sy'n cael eu penodi drwy recriwtio agored a'u cadeirio gan aelod o'r Bwrdd.

Mae ein timau ardal a gwlad yn lleoli staff ar draws y DU, gan gyfuno arbenigedd treftadaeth arbenigol â gwybodaeth leol i gefnogi cymunedau a sefydliadau a hysbysu gwneuthurwyr penderfyniadau. Maent hefyd yn cynnal partneriaethau strategol â llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol, cymunedau a sefydliadau treftadaeth, gan ein galluogi i ymateb i flaenoriaethau cymunedol a newidiadau megis datblygu awdurdodau strategol maerol.

Gwneir penderfyniadau ar grantiau ar y lefel briodol: mae staff arbenigol mewn chwe thîm ardal a gwlad yn penderfynu ar grantiau o dan £250,000; mae pwyllgorau ardal a gwlad yn penderfynu ar grantiau rhwng £250,000 a £5m ac yn cynghori'r Bwrdd ar ddyfarniadau mwy; ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn penderfynu ar grantiau dros £5m. Mae **Adran 3** yn nodi'r model hwn yn llawn.

Mae ein hariannu ar gael drwy un rhaglen grant, sef Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, a all gefnogi prosiectau treftadaeth o £10,000 hyd at £10m. Mae hyn yn gweithio fel un drws blaen i holl gefnogaeth y Gronfa Treftadaeth, gan wneud cyrchu ein hariannu mor syml â phosibl.

Mae Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol hefyd yn ariannu mentrau strategol sy'n mynd i'r afael â heriau treftadaeth hirhoedlog ar raddfa fawr, yn cefnogi dulliau trawsdiriogaethol ac yn cyflymu arloesedd. Roedd tair blynedd gyntaf Treftadaeth 2033 yn cynnwys pum menter strategol yn cwmpasu lleoedd ffyniannus, adfer byd natur trefol, tirweddau cysylltiedig, addoldai ac archifau. Mae manylion y prif fentrau sy'n seiliedig ar leoedd wedi'u nodi yn **Adran 2**.

Ein hymateb

Mae'r ymateb hwn yn esbonio sut rydym yn gweithio ac mae wedi'i strwythuro o gwmpas tair blaenoriaeth y cais am dystiolaeth. At hynny, rydym yn cydnabod bod gan lywodraeth y DU flaenoriaethau gwasanaeth cyhoeddus ychwanegol yn ymwneud ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd sy'n berthnasol i'r cais am dystiolaeth. Rydym yn ymdrin â hyn yn **Adran 5**, sy'n ei osod hyn yng nghyd-destun ein gwaith ar draws teulu dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol a maes polisi treftadaeth ehangach ar draws y DU.

Astudiaethau achos

Gallwch archwilio amrywiaeth o astudiaethau achos yn dangos prosiectau yr ydym wedi'u cefnogi sy'n berthnasol i'r cais am dystiolaeth:

- [Dathlu treftadaeth pêl-droed menywod yn Lloegr](#)
- [Taflu sbotolau ar brofiadau anhysbys pêl-droedwyr benywaidd yn Lloegr](#)
- [Creu cartref i archifau Cernyw](#)
- [Dod â bywyd newydd i farchnadle Caistor](#)
- [Prosiect ymgysylltu byd natur Luton yn creu hyfforddeiaethau â thâl i bobl ifanc](#)
- [Ymdrech gymunedol yn achub tafarn hanesyddol pentref yn Suffolk](#)
- [Pobl leol yn cael dweud eu dweud ar gofebau Stoke-on-Trent sy'n derbyn arian atgyweirio](#)
- [Sut y lluniodd Rheithgor y Dinasyddion ddyfodol Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham](#)
- [Adeiladu sgiliau treftadaeth a chysylltiadau cymunedol yn Rhanbarth Dinas Lerpwl](#)
- [Trawsnewid elusendy hanesyddol yn Newcastle yn dai fforddiadwy](#)
- [Rhoi pobl ifanc wrth wraidd adfywio a arweinir gan dreftadaeth yn Grimsby](#)

- [Cairngorms 2030: pobl a natur yn ffynni gyda'i gilydd](#)
- [Gwarchod cwch pysgota hanesyddol a sgiliau morwrol yn Fife](#)
- [Lock 16: canolfan ragoriaeth Yr Alban ar gyfer camlesi a sgiliau traddodiadol](#)
- [Adnewyddu Neuadd Les Pendyrus \(Tylorstown\)](#)
- [Ysbrydoli balchder yn nhirwedd llechi eiconig Cymru](#)
- [Siapio dyfodol Stori Brymbo](#)
- [Achub canrif o hanes darlledu Cymru](#)
- [Ailgyssylltu pobl a byd natur ar Divis a'r Mynydd Du](#)
- [Dod â gwaddol menywod yng Ngogledd Iwerddon yn fyw](#)

2. Ariannu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd

Gwerth treftadaeth i fywydau pobl a chymunedau'r Deyrnas Unedig

Rydym yn gwybod bod pobl yn gwerthfawrogi treftadaeth. Rydym yn gweld hyn yn ein gwaith gyda'r cymunedau a'r sefydliadau sy'n ymgeisio am ein hariannu ac yn cyflwyno prosiectau treftadaeth. Mae ein profiad wedi'i ategu gan dystiolaeth. Nododd [Ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Public First](#) fod 79% o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi hanes a threftadaeth leol fel ffactor allweddol wrth wneud eu hardal yn lle da i fyw.

Mae treftadaeth yn bwysig i bobl yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n rhan bwysig o'u bywydau. Er bod llywodraethau ar draws y DU yn casglu data gwahanol, mae'r cyfan yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn ymgysylltu â threftadaeth:

- Nododd [Arolwg Cymuned ac Ymgysylltu DCMS](#) fod 65% o oedolion yn Lloegr wedi ymgysylltu â threftadaeth yn gorfforol neu'n ddigidol yn 2025–2026 (62% yn gorfforol, 25% yn ddigidol, a 22.2% y ddau). Y lleoedd treftadaeth yr ymwelwyd â nhw amlaf oedd parciau a gerddi hanesyddol (39%), trefi neu ddinasoedd hanesyddol (36%), tirweddau neu gynefinoedd hanesyddol (34%), adeiladau hanesyddol (28%) a safleoedd archeolegol neu henebion (26%). Nododd [Yr Arolwg Cymuned ac Ymgysylltu: Adroddiad Amgueddfeydd ac Oriolau](#) fod 45% o oedolion wedi ymgysylltu ag amgueddfeydd/oriolau'n gorfforol neu'n ddigidol o leiaf unwaith dros y flwyddyn ddiwethaf (42% yn gorfforol, 15% yn ddigidol).
- Nododd [Arolwg Aelwydydd Parhaus Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon](#) fod 64% o oedolion wedi ymweld â safle hanesyddol yn 2024–2025 a bod 42% wedi ymweld ag amgueddfa neu ganolfan wyddoniaeth.
- Nododd [Arolwg Cenedlaethol Cymru Lywodraeth Cymru](#) (2022–2023) fod 72% o'r ymatebwyr wedi mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd 31% wedi ymweld ag amgueddfa ac roedd 63% wedi ymweld â safle treftadaeth.
- Nododd [Arolwg Aelwydydd Yr Alban Lywodraeth yr Alban](#) (2023) fod 88% o oedolion wedi mynychu, ymweld neu gymryd rhan mewn digwyddiad, lle neu weithgaredd diwylliannol yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn cynnwys 33% o'r ymatebwyr a nododd eu bod wedi ymweld â lleoedd hanesyddol a 30% a oedd wedi ymweld ag amgueddfeydd.

Rydym yn gwybod y gall ymgysylltu â threftadaeth gael effeithiau cadarnhaol ar bobl, ar gymdeithas a'r economi:

- [Mae ymweliadau treftadaeth yn cefnogi cysylltiadau cymdeithasol a dysgu](#): yn dilyn ymweliad diweddaraf pobl, treuliodd 66% amser gyda theulu neu ffrindiau, dysgodd 57% am dreftadaeth neu ddiwylliant, cynyddodd 40% eu gwybodaeth a nododd 22% welliant mewn iechyd meddwl neu lesiant.

- Mae gan dreftadaeth naturiol werth cyhoeddus mawr: mae'r [Cyfrifon Cyfalaf Naturiol](#) yn amcangyfrif cyfanswm gwerth blynyddol *pob un* o wasanaethau ecosystem y DU (gan gynnwys natur nad yw'n dreftadaeth) fel £41bn yn 2023, gyda hamdden a thwristiaeth fel y gwasanaeth sydd â'r gwerth blynyddol mwyaf ar £10bn a buddion iechyd hamdden fel y gwasanaeth sydd â'r gwerth asedau mwyaf ar £508bn.
- Gall treftadaeth gefnogi cysylltiad â lle: nododd [ymchwil gan Brifysgol Glasgow](#) fod y cysylltiadau sydd gan bobl â lleoedd hanesyddol a'r emosiynau cadarnhaol maen nhw'n eu cynhyrchu yn sbarduno penderfyniadau economaidd – ble mae pobl yn dewis byw, gweithio, gwario a buddsoddi.
- Mae treftadaeth yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli, a all hefyd gefnogi cyflogadwyedd a datblygiad: recriwtiodd y [prosiect Improving Futures: Volunteering for Wellbeing](#) 230 o wirfoddolwyr newydd ar draws 10 lleoliad treftadaeth ym Manceinion; cafodd mwy na 30% o gyfranogwyr gyfleoedd cyflogaeth neu ddatblygiad newydd, ac adroddodd gwerthuswyr £3.50 mewn gwerth cymdeithasol ac economaidd am bob £1 a fuddsoddwyd. o ganlyniad i [raglen wirfoddoli Inspiring Futures Historic England](#), a gyflwynwyd ar draws 10 lleoliad treftadaeth, adroddodd dros 75% o gyfranogwyr am gynnydd sylweddol yn eu llesiant ar ôl blwyddyn, gyda bron i 60% yn nodi gwelliant parhaus yn eu llesiant.
- Gall ymgysylltu â threftadaeth gefnogi llesiant: nododd [ymchwil gan Historic Environment Scotland](#) i 76% o'r bobl a holwyd hunan-adrodd bod eu boddhad cyffredinol â bywyd wedi gwella o ganlyniad i ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Adroddodd 86% o'r ymatebwyr welliant yn eu llesiant, wedi'i ddiffinio fel gwelliant mewn o leiaf un o'r canlynol: hapusrwydd a hunan-adroddwyd, boddhad bywyd, teimlo'n iachach, ymdeimlad o hunanwerth neu fod yn llai pryderus.
- Mae gwerth economaidd treftadaeth yn arwyddocaol: nododd [ymchwil gan Historic England](#) fod treftadaeth yn cyfrannu £39.4bn yn Lloegr yn unig.
- [Mae treftadaeth yn hanfodol i economi ymwelwyr y DU](#): amcangyfrifir y gellir priodoli gwariant ychwanegol o £12.4bn gan ymwelwyr tramor i dreftadaeth, £12.5bn i ymweliadau dydd domestig a £4.8bn i deithiau dros nos domestig. Mae ariannu'r Loteri Genedlaethol yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynnig twristiaeth y DU – mae pob un o [10 atyniad mwyaf poblogaidd y DU](#) yn 2025 wedi derbyn grant gan y Gronfa Treftadaeth.

Rydym yn monitro cyfraniad ein strategaeth at dreftadaeth a'i heffaith ar bobl a chymunedau drwy [ein hadroddiad effaith](#), sy'n nodi pa brosiectau sydd wedi elwa o'n hariannu yn ôl daearyddiaeth, maes treftadaeth a chyfraniad at ein hegwyddorion buddsoddi.

Sicrhau ein bod yn ariannu'r dreftadaeth sy'n bwysig i bobl a chymunedau

Rydym yn rhannu ymrwymiad llywodraeth y DU i sicrhau bod buddsoddiad y Loteri Genedlaethol yn cefnogi blaenoriaethau'r cyhoedd. Wrth ddatblygu ein strategaeth ddiweddaraf, bu i ni ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid i ddeall yn well beth oedd yn bwysig iddyn nhw. Yn haf 2022, [rhannodd dros 4,000 o aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eu barn am dreftadaeth a'n cyfeiriad yn y dyfodol](#). Cafodd yr hyn a ddysgom ganddynt ei wreiddio yn ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033, sy'n gosod y fframwaith ar gyfer ein buddsoddiad. Dangosodd yr ymgynghoriad hwn ddealltwriaeth eang o beth sy'n ffurfio treftadaeth, awydd am amcanion ariannu clir, pwyslais ar dreftadaeth mewn perygl a chynladwyedd amgylcheddol a sicrhau bod manteision buddsoddi mewn treftadaeth yn cael eu teimlo o fewn cymunedau lleol.

Fe wnaeth y canfyddiadau hyn siapio Treftadaeth 2033 yn uniongyrchol: dehongliad eang o dreftadaeth, pedair egwyddor fuddsoddi, partneriaeth a gweithio seiliedig ar le ac un rhaglen grantiau y mae sefydliadau a chymunedau'n ei defnyddio i siapio a chyflwyno prosiectau sy'n ystyrlon iddyn nhw.

Rydym yn cyflawni hyn drwy fabwysiadu egwyddorion buddsoddi, fel y meini prawf a ddefnyddiwn i wneud penderfyniadau ar geisiadau, yn hytrach na mynnu canlyniadau penodol. Mae hyn yn galluogi ymgeiswyr i gyflwyno prosiectau sy'n diwallu eu dyheadau ac anghenion y dreftadaeth y maent yn ei gwerthfawrogi yn hytrach na gorfodi fframwaith un-peth-i-bawb arnynt. Mae ein hegwyddor fuddsoddi, Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad, yn cryfhau llais y cyhoedd ymhellach yn y ceisiadau a gyflwynir i ni, gan iddi sicrhau bod prosiectau'n cynnwys ystod amrywiol o bobl, trwy gyd-greu, arweinyddiaeth a llywodraethu.

Rydym yn cydnabod bod rhai lleoedd yn elwa llai nag eraill o ariannu'r Loteri Genedlaethol, ac y gall rhai cymunedau fod yn brin o'r gallu i wneud cais llwyddiannus. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn cymryd camau strategol i helpu lleoedd sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol i gyrchu ein cyllid, er mwyn sicrhau y gall hyd yn oed mwy o bobl a chymunedau weld eu blaenoriaethau'n cael eu hadlewyrchu yn y prosiectau a gefnogwn:

- **Cymorth ymgysylltu:** wedi'i ddarparu gan ein timau lleol sy'n cynghori ymgeiswyr ar bob agwedd ar roi grantiau o gefnogaeth cyn-ymgeisio i gwblhau'r prosiect. Mae ein staff wedi'u lleoli yn yr ardaloedd maen nhw'n eu gwasanaethu, gyda 12 swyddfa yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ac ar draws rhanbarthau Lloegr. Mae gweithio fel hyn yn galluogi ein staff i ffurfio perthnasoedd hirdymor yn eu lle, ymgysylltu'n strategol ag awdurdodau lleol, cymdeithas sifil a phartneriaid eraill a defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth leol o'r dreftadaeth a'r cymunedau. Mae hefyd yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth rhwng dosbarthwyr y Loteri Genedlaethol ac arianwyr eraill.
- **Buddsoddi mewn gallu cymunedol:** gall ein grantiau ariannu cymunedau i ddatblygu gallu, ac rydym yn gweithio gydag ymgeiswyr i ddatblygu eu sgiliau a'u gallu trwy brosiectau lluosog dros gyfnod hir o amser. Rydym wedi gwneud newidiadau i sut mae grantiau'n cael eu dyrannu er mwyn i ni allu ymateb yn well i anghenion lleol. Lle mae capasiti a hyder cymunedol yn

gyfyngedig, gallwn weithio trwy bartneriaid lleol dibynadwy sydd â'r sgiliau a'r rhwydweithiau i ddosbarthu ariannu ar ein rhan trwy ddull grantiau cymunedol.

- **Buddsoddiad wedi'i dargedu:** mae'r dull hwn wedi helpu sicrhau y gall ein hymyriadau strategol mewn perthynas â lle, tirwedd a natur ac addoldai fod yn ymatebol i flaenoriaethau lleol. Gall ymgeiswyr hefyd ddod atom gyda'u mentrau eu hunain i ymateb yn strategol i angen, er enghraifft adeiladu capasiti yn eu lle drwy [Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth](#) a chefnogi amgueddfeydd annibynnol bach a sefydliadau byd natur cymunedol.

Rydym yn gwybod mai pobl sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol uchel sydd leiaf tebygol o ymgysylltu â threftadaeth a bod lleoedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd a chapasiti cymunedol isel yn tueddu i fod y rhai sy'n derbyn lefelau is o fuddsoddi cyhoeddus o amrywiaeth o ffynonellau. Gall hyn fod yn rhwystr i flaenoriaethau'r cyhoedd gael eu cefnogi gan ariannu'r Loteri Genedlaethol.

Rydym yn ystyried bod ein dull hyblyg, wedi'i ategu gan gefnogaeth weithredol a'n dull o weithio sy'n seiliedig ar le (gweler mwy isod), yn ffyrdd effeithiol o helpu lleoedd o'r fath i oresgyn rhwystrau i gefnogaeth. Wrth edrych ar Lloegr (nid yw setiau data'n hollol gymharol rhwng gwledydd y DU) rydym yn gwybod bod ein dull yn cefnogi lleoedd sy'n profi anfantais ddwbl ([fel y'i diffinnir gan DCMS](#)) i elwa o ariannu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth:

- Ers 1994, rydym wedi dyfarnu 26.5% o ariannu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth yn Lloegr i ardaloedd awdurdodau lleol yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ac roedd 25.5% o'r prosiectau a ddyfarnwyd yn y lleoliadau hyn.
- Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae 27.6% o ariannu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth wedi mynd i'r ardaloedd hyn ac roedd 27% o'r prosiectau a ddyfarnwyd yn y lleoliadau hyn.

Mae tueddiadau ariannu'n newid dros amser, ac rydym wedi cytuno ar ddangosydd perfformiad allweddol gyda DCMS ar gyfran y dyfarniadau ac ariannu ar gyfer yr 20% o ardaloedd sy'n profi'r anfantais ddwbl fwyaf yn Lloegr. Byddwn yn parhau i fonitro ein buddsoddiad yn y cymunedau hyn ac yn ymateb fel y bo'n briodol.

Ar draws ein mentrau strategol, defnyddir data i nodi lleoedd lle gall buddsoddiad gael yr effaith fwyaf ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at ardaloedd lle mae'r anghenion a'r cyfleoedd mwyaf. Mae Treftadaeth yn cyfuno tystiolaeth ar anghenion treftadaeth, buddsoddi hanesyddol ac amddifadedd â mewnwleidiad lleol i nodi lleoliadau ar gyfer buddsoddi hirdymor sy'n seiliedig ar le. Mae Trefi a Dinasoedd Natur yn defnyddio data mynediad ac amddifadedd amgylcheddol i dargedu cefnogaeth at gymunedau sydd â'r mynediad gwaethaf at fannau gwyrdd, ac mae Cysylltiadau Tirwedd yn darparu cefnogaeth ymgysylltu a datblygu prosiectau ychwanegol i dirweddau sydd â llai o allu i sicrhau ariannu (mae 12 grant bach wedi'u darparu i gefnogi sefydliadau sydd â llai o allu i baratoi ceisiadau Cysylltiad Tirwedd am dros £250,000). Ym mhob achos, cyfunir data â gwybodaeth

leol a gwaith partneriaeth i sicrhau bod buddsoddi'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymatebol i amgylchiadau lleol.

Rydym yn sicrhau bod ariannu ar gael ar draws y DU drwy ddyraniadau fesul pen yn bennaf. Mae mwy na 95% o benderfyniadau'n cael eu gwneud gan bwyllgorau ardal a gwlad ar gyfer ceisiadau rhwng £250,000 a £5m, neu maen nhw'n cael eu dirprwyo i staff lleol ar gyfer ceisiadau o dan £250,000.

Ochr yn ochr â'r dyraniadau hyn, rydym yn cadw'r hyblygrwydd i fuddsoddi ar lefel y DU a'r sector. Mae 'swm gwlad wrth gefn' ar gyfer Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhoi mynediad tecach i brosiectau at grantiau mwy, gan ganiatáu i ni fynd y tu hwnt i'r hyn y byddai cyllidebau cenedlaethol llai yn ei ganiatáu fel arall.

Mae'r swm wrth gefn yn cefnogi prosiectau gwerth uchel o arwyddocâd cenedlaethol sy'n dangos ansawdd cryf, gwerth am arian a photensial clir i gyflwyno Treftadaeth 2033.

Mae ein cyllideb yn sicrhau bod gennym hyblygrwydd i ddarparu ariannu ar gyfer ein mentrau strategol a phrosiectau DU gyfan. Mae gan ein Bwrdd gyllideb i gyflenwi rhai o'r grantiau, mentrau strategol a phrosiectau strategol dros £5m. Felly, gallwn ymateb i gyfle ac uchelgais lle mae'n bodoli ym mhob cwr o'r DU.

Mae buddsoddi ar raddfa fawr fel hyn yn esbonio amrywiad ar draws blyneddau a rhwng gwledydd ac ardaloedd, lle y gall nifer fach o brosiectau cyfalaf ar raddfa fawr arwain at yr hyn a allai edrych fel anghydraddoldebau daearyddol mawr. Mae dyraniadau fesul pen wedi sicrhau nad yw ein hariannu wedi'i dargedu'n anghymesur tuag at Lundain. Dros y 10 mlynedd diwethaf, derbyniodd Llundain £49 y pen mewn buddsoddi gan y Gronfa Treftadaeth, o gymharu â chyfartaledd y DU o £43 y pen, gwahaniaeth o 14%.

Ers lansio Treftadaeth 2033 yn 2023, mae'r bwlch hwnnw wedi culhau'n sylweddol, gyda Llundain yn derbyn £12 y pen o'i gymharu â chyfartaledd y DU o £11, gwahaniaeth o 9%. Wrth edrych ar draws oes y Loteri Genedlaethol, mae Llundain wedi derbyn £180 y pen o gymharu â £133 ar draws y DU, bwlch o 35%, sy'n dangos bod ariannu bellach yn cael ei ddosbarthu'n fwy cyfartal nag yn y gorffennol.

Mae ein dull yn golygu bod pob lle ar draws y Deyrnas Unedig yn elwa o gefnogaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer treftadaeth. Mae prosiectau ym mhob ardal awdurdod lleol yn y DU wedi cael eu cefnogi gan y Gronfa Treftadaeth.

Gwlad/rhanbarth	Dros oes y Loteri Genedlaethol fesul pen	Treftadaeth 2033 fesul pen	Y 10 mlynedd diwethaf fesul pen
Dwyrain Canolbarth Lloegr	£107	£8	£39
Dwyrain Lloegr	£100	£8	£38
Llundain	£180	£12	£49

Gwlad/rhanbarth	Dros oes y Loteri Genedlaethol fesul pen	Treftadaeth 2033 fesul pen	Y 10 mlynedd diwethaf fesul pen
Gogledd-ddwyrain Lloegr	£180	£19	£67
Gogledd-orllewin Lloegr	£114	£7	£31
Gogledd Iwerddon	£154	£14	£57
Yr Alban	£186	£13	£59
De-ddwyrain Lloegr	£98	£7	£30
De-orllewin Lloegr	£156	£17	£59
Cymru	£163	£21	£70
Gorllewin Canolbarth Lloegr	£106	£8	£36
Swydd Efrog a'r Humber	£109	£7	£31
Cyfartaledd y DU	£133	£11	£43

Yn ogystal â sicrhau ein bod yn bodloni'r galw o bob cwr o'r DU, rydym yn ymatebol i'r ystod lawn o dreftadaeth sy'n bwysig i bobl a chymunedau. Nid ydym yn diffinio treftadaeth i'n hymgeiswyr, a fyddai'n eu hatal rhag dweud beth sy'n bwysig iddynt, ond rydym yn cofnodi ein grantiau yn erbyn mathau eang o dreftadaeth sy'n dangos ehangder y dreftadaeth rydym yn ei chefnogi yn ogystal â chefnogaeth y cyhoedd i wahanol fathau o dreftadaeth.

Maes treftadaeth	Dyfarniad Treftadaeth 2033 %	Prosiectau Treftadaeth 2033 %	Dyfarnia dau'r 10 Mlynedd Diwethaf %	Prosiecta u'r 10 Mlynedd Diwethaf %	Dyfarnia dau Oes %	Prosiect au Oes %
Cymuned, diwylliannau ac atgofion a threftadaeth anniriaethol	8%	30%	9%	38%	5%	50%
Ardaloedd, adeiladau a henebion hanesyddol	42%	30%	39%	19%	35%	15%

Maes treftadaeth	Dyfarniad Treftadaeth 2033 %	Prosiectau Treftadaeth 2033 %	Dyfarnia dau'r 10 Mlynedd Diwethaf %	Prosiecta u'r 10 Mlynedd Diwethaf %	Dyfarnia dau Oes %	Prosiect au Oes %
Amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau	25%	16%	20%	12%	28%	12%
Tirweddau a natur	20%	18%	23%	13%	22%	10%
Diwydiannol, morol a thrafnidiaeth	5%	5%	6%	5%	7%	3%
Arall	0%	0%	3%	12%	3%	10%

Dull sy'n seiliedig ar le

Mae treftadaeth wedi'i wreiddio yn y cymunedau, y tirweddau a'r ardaloedd lle mae pobl yn byw. Mae gweithio mewn lle yn ein helpu ni i ddeall anghenion, cyfleoedd ac uchelgeisiau unigryw, targedu cefnogaeth drwy bartneriaethau lleol a galluogi i dreftadaeth gyfrannu at falchder bro, adfywio, cydlyniant cymunedol a llesiant cymdeithasol ac economaidd hirdymor.

Mae pobl leol yn deall y dreftadaeth y maent yn ei gwerthfawrogi a'r prosiectau hynny a all ei hamddiffyn orau. Felly, mae ein staff ymgysylltu'n cynnal perthnasoedd hirdymor, yn helpu cymunedau a sefydliadau i gyrchu ariannu, yn buddsoddi ar y cyd gydag awdurdodau lleol ac yn cyfrannu at ddiwylliant, adfywio a chynllunio piblinellau prosiect.

Mae Treftadaeth 2033 yn cryfhau'r dull sefydledig hwn drwy fuddsoddi mewn lleoedd yn ogystal â phrosiectau unigol. Mae'r penderfyniadau a wnawn yn cael ei gyfuno â mentrau strategol wedi'u targedu sy'n adeiladu gallu, partneriaethau a chydnerthedd lleol tra'n profi a chynyddu graddfa dulliau newydd:

- Mae **Treftadleoedd** yn targedu buddsoddi at leoliadau sydd ag anghenion sylweddol o ran treftadaeth, buddsoddi sy'n is yn hanesyddol a lefelau uwch o amddifadedd, gan gefnogi 15 lle ar draws y DU i ddatblygu dulliau a arweinir yn lleol sy'n cryfhau balchder bro, ymgysylltu cymunedol a chydnerthedd hirdymor. Bydd y Gronfa Treftadaeth yn cynnal ei pherthynas â'r lleoedd hyn am ddeng mlynedd, ac mae hyd at £200 miliwn wedi'i glustnodi yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r lleoedd wedi'u lleoli ar draws y DU, gan adlewyrchu amrywiaeth eang o leoliadau, gan gynnwys Glasgow, Medway, Dudley a Chastell-nedd Port Talbot. Er bod y rhain yn ymyriadau strategol ar sail cyfle ac angen, maent hefyd yn brosiectau arddangos, lle gellir cymhwyso'r dysgu i raglenni datblygu lle eraill.
- Mae **Trefi a Dinasoedd Natur** yn fenter gwerth £15 miliwn sy'n cefnogi tua 40 o drefi a dinasoedd ar draws y DU i wella mynediad at fyd natur ac

ymwreiddio adferiad byd natur mewn cynllunio a buddsoddi lleol. Wedi'i chyflwyno ar y cyd â Natural England a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mae'r rhaglen yn darparu ariannu, adeiladu gallu a chefnogaeth arbenigol i leoedd a nodwyd trwy dystiolaeth o fynediad at fannau gwyrdd ac amddifadedd, gan helpu i gyflwyno manteision amgylcheddol ac iechedd, a manteision sy'n seiliedig ar le. Mae lleoliadau'n cynnwys Blackpool, Portsmouth, Bryste, Sunderland, Fife, Castell-nedd Port Talbot a Belfast. Mae Awdurdod Strategol Maerol Rhanbarth Dinas Lerpwl yn arwain partneriaeth leol.

- Mae **Cysylltiadau Tirwedd** yn fenter gwerth £150m sy'n cefnogi adferiad byd natur ar draws Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, gydag ariannu datblygu pwrpasol a chefnogaeth wedi'i thargedu i helpu ardaloedd sydd â llai o allu i gyrchu buddsoddiad. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn dangos sut mae'r Gronfa Treftadaeth yn defnyddio targedu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a phartneriaethau lleol cynaliadwy i alluogi canlyniadau sy'n seiliedig ar le ar gyfer cymunedau, treftadaeth a'r amgylchedd naturiol.

Mae'r mentrau hyn, sy'n cael eu dylunio gyda phobl leol, yn cael eu gwerthuso er mwyn i ni a'n partneriaid addasu a rhannu dysgu. Mae gwerthuso cynnar annibynnol yn awgrymu bod dull hirdymor, hyblyg Treftadleoedd yn effeithiol: yn ystod y dwy flynedd gyntaf o gyflwyno, adroddodd lleoedd am fwy o ymgysylltiad cymunedol â threftadaeth a gweithiodd 88% yn uniongyrchol â chymunedau a sefydliadau'r sector gwirfoddol, gan adrodd bod sgiliau, gallu a hyder staff i weithio gyda chymunedau wedi gwella.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos sut y gall buddsoddi cynaliadwy, wedi'i lunio'n lleol, ymateb i flaenoriaethau cymunedol ac adeiladu gallu, gan gynnig dysgu defnyddiol ar gyfer dyfodol ariannu achosion da.

Mae gweithio seiliedig ar le yn dod yn gynyddol bwysig ar draws y DU, ac rydym yn ymgysylltu'n strategol â llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, llywodraeth leol a phartneriaid eraill i sicrhau ein bod yn ymateb i newid a'n bod felly yn effeithiol yn ein gweithrediad. Fel ariannwr strategol arbenigol, gallwn fuddsoddi ar raddfa fawr i helpu lleoedd a chymunedau lleol i fanteisio i'r eithaf ar eu treftadaeth ac rydym mewn sefyllfa dda i weithio mewn partneriaeth ar bob lefel ofodol i ymateb i anghenion lle:

- Mae **datganoli yn Lloegr** yn cyflwyno cyfleoedd i gryfhau ein partneriaethau a chael effaith mewn lle. Rydym yn ymgysylltu'n strategol ag awdurdodau strategol maerol (MSAs) i ddeall eu blaenoriaethau a lle y gallai fod cyfleoedd buddsoddi ar y cyd. Rydym eisoes yn cyd-fuddsoddi ag MSAs, er enghraifft yn Sheffield mae'r Gronfa Treftadaeth ac Awdurdod Strategol Maerol De Swydd Efrog yn ariannu trawsnewid Canada House yn ganolfan addysg gerddoriaeth ar gyfer y rhanbarth. Rydym yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r trefniadau strategol newydd y mae MSAs yn eu sefydlu mewn perthynas â diwylliant, gan gynnwys yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Swydd Efrog. Bydd MSAs yn gynyddol bwysig wrth gyflwyno prosiectau treftadaeth yn llwyddiannus, gydag arweinyddiaeth faerol yn allweddol dros nifer o feysydd polisi sy'n

bwysig i dreftadaeth, er enghraifft sgiliau a thrafnidiaeth, yn ogystal ag arweinyddiaeth strategol faerol ar gyfer lle.

- **Rydym yn cefnogi ac yn gweithio o fewn fframweithiau strategol a sefydlwyd mewn lle.** Gellir gweld hyn ar draws y fenter strategol Treftadleoedd ac mae gan ein timau lleol rôl ymgynnull. Er enghraifft, ym Mhartneriaeth Ddiwylliannol Castell-nedd Port Talbot, mae partneriaeth draws-sector arloesol sydd â'r nod o roi diwylliant a threftadaeth wrth wraidd datblygu a llesiant lleol. Fel rhan o'n cefnogaeth i ddynodiad Castell-nedd Port Talbot fel Treftadle, fe wnaethom gomisiynu ac ariannu cefnogaeth lywodraethu arbenigol drwy ein fframwaith Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi (RoSS) (gweler mwy isod), gan helpu partneriaid i sefydlu trefniadau arweinyddiaeth a gweithio ar y cyd effeithiol.
- **Mae ein gwaith sy'n seiliedig ar le'n adeiladu capasiti ar gyfer yr hirdymor.** Tyfodd Clwstwr Treftadaeth Gogledd Belfast allan o fuddsoddiad Great Place North Belfast y Gronfa Treftadaeth, a ddaeth â 13 o sefydliadau treftadaeth ynghyd o amgylch gweledigaeth a rennir ar gyfer adfywio a arweinir gan dreftadaeth. Gan adeiladu ar y cydweithrediad hwn, mae partneriaid wedi datblygu Cynllun Siapio Lle 10 mlynedd ar gyfer Stryd Donegall Uchaf, gan greu fframwaith a rennir i ddefnyddio asedau treftadaeth yr ardal i sbarduno twf economaidd, gwella'r parth cyhoeddus, cryfhau hunaniaeth gymunedol a chefnogi cydnerthedd hinsawdd. [Mae'r cynllun yn darparu dull cydlynol](#) ar gyfer sefydliadau treftadaeth, cymunedau a chyrrff cyhoeddus i ddarparu manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd hirdymor i Ogledd Belfast.
- **Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a gyda chyrrff hyd braich (CHB) treftadaeth eraill** i sicrhau cefnogaeth gydgyssylltiedig a strategol mewn lle. Yn Lloegr mae'r gwaith hwn yn digwydd o fewn Partneriaethau Lle Rhanbarthol, lle mae'r Gronfa Treftadaeth a'i phartneriaid CHB o fewn DCMS yn nodi cyfleoedd i gydweithio. Gweithiodd CHB DCMS yn cydweithio i gyflwyno'r Partneriaeth Better Places. Wedi'i ariannu gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), darparodd hyn gyngor arbenigol ar dreftadaeth, diwylliant a chwaraeon i awdurdodau lleol a ariannwyd drwy'r Gronfa Ffyniant Bro. Yn Yr Alban, rydym yn gweithio gyda Historic Environment Scotland ar y Gronfa Heritage and Places.
- **Rydym yn cynnal cysylltiadau â sefydliadau llywodraeth leol** er mwyn ymgysylltu'n strategol i gefnogi ein partneriaethau lleol ag awdurdodau lleol unigol ar le. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ymgysylltu â Chynghrair Dinasoedd Yr Alban, Cymdeithas Llywodraeth Leol Gogledd Iwerddon (NILGA), y Grŵp Dinasoedd Allweddol a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA).
- **Rydym yn gweithio gyda llywodraeth y DU er mwyn i dreftadaeth gyfrannu at y canlyniadau i gymunedau y mae rhaglenni datblygu lle yn ceisio eu cyflwyno.** Fe wnaethom weithio gyda Historic England ar y

rhaglen [Historic High Streets Heritage HAZ](#) – cafodd 67 o strydoedd mawr ar draws Lloegr eu hadnewyddu gyda £95m a ddarparwyd gan MHCLG a DCMS. Cefnogodd y Gronfa Treftadaeth raglen ddiwylliannol ar draws yr holl leoliadau, gan sicrhau bod cymunedau lleol yn rhan o'r gwaith o adfywio'r lleoedd lle y maent yn byw. Bu i'r rhaglen gynyddu balchder lleol ac ymdeimlad o berthyn, gwella cydlyniant cymunedol, gwella llesiant a chynyddu ymgysylltu â threftadaeth.

Fel dosbarthwr DU gyfan, rydym yn galluogi pobl o bob lle a chymuned i ddod o hyd i'w lle yn ein stori genedlaethol a rennir. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i brosiectau treftadaeth lleol sydd o bwys mawr i gymunedau, yn ogystal â buddsoddiadau strategol sydd ag effeithiau cenedlaethol a rhyngwladol ehangach.

Mae ein model DU gyfan yn cyfuno gwneud penderfyniadau'n lleol â gweithredu ar raddfa fawr, hyblygrwydd a dysgu ar y cyd. Rydym yn ystyried blaenoriaethau pob gwlad ac yn cydweithio'n agos â'r llywodraethau datganoledig a'u cyrff hyd braich. Rydym yn ymateb yn uniongyrchol i gyfarwyddiadau polisi a gyhoeddir gan lywodraethau Cymru a'r Alban, ac er bod cyfarwyddiadau polisi Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar ffurf drafft o hyd, rydym hefyd yn cymryd y rhain i ystyriaeth. Er bod pob set o gyfarwyddiadau polisi'n adlewyrchu'r cyd-destun datganoledig unigol, mae llawer o uchelgeisiau wedi'u rhannu, gan gynnwys sicrhau bod dyheadau cymunedau'n cael eu cydnabod mewn penderfyniadau ariannu a bod treftadaeth yn cyfrannu at ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.

Mae ein timau yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ein galluogi i ymateb yn effeithiol i'r cyd-destunau unigryw yr ydym yn gweithredu ynddynt ac i adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol yn ein buddsoddiad. Er enghraifft, mae cyfarwyddiadau polisi Cymru'n annog defnydd cymunedol o asedau treftadaeth. Mae ein buddsoddiad yn Neuadd Lles Pendyrus yn dangos sut mae buddsoddi'r Gronfa Treftadaeth yn cefnogi'r uchelgeisiau hyn yn ymarferol. Drwy grant o £4.7m a ddyfarnwyd yn 2025, mae'r adeilad rhestredig pwysig hwn wedi'i adfer a'i adfywio o ran ffabrig y neuadd a'r gefnogaeth broffesiynol sydd ei hangen i ddatblygu rhaglen ar ei newydd wedd o weithgareddau a digwyddiadau. Bydd hyn yn sicrhau bod y neuadd yn parhau i fod wrth wraidd ei chymuned am genedlaethau i ddod.

Gan alw ar fwy na 30 mlynedd o brofiad ar draws pedair gwlad, rydym yn trosglwyddo dulliau llwyddiannus rhwng lleoedd tra'n ymdrin â heriau a rennir, fel newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, trawsnewid digidol, sgiliau gweithlu a chydnerthedd y sector.

Mae dyraniadau fesul pen yn sicrhau mynediad eang, ac mae'r swm gwlad wrth gefn a ddisgrifiwyd yn gynharach yn galluogi buddsoddiadau mawr mewn treftadaeth o bwys cenedlaethol, yn unol â blaenoriaethau datganoledig.

Mae hyn yn darparu'r hyblygrwydd i gefnogi buddsoddiadau mawr o arwyddocâd cenedlaethol megis casgliadau pwysig, tirweddau, treftadaeth ddiwydiannol neu gyrchfannau ymwelwyr arwyddocaol. O fuddsoddi mewn adfer a thrawsnewid Rochdale Town Hall, i gefnogi Amgueddfa Lechi Genedlaethol rhestredig Gradd I yng Ngwynedd, trawsnewid Casgliad Burrell hanesyddol Glasgow ac adfer Grand

Opera House eiconig Belfast, mae ein dull yn sicrhau bod penderfyniadau ariannu'n adlewyrchu arwyddocâd ac effaith prosiect yn hytrach na chael eu cyfyngu gan ddyraniadau ariannu daearyddol yn unig. Mae'r buddsoddiadau hyn yn dangos sut mae model ariannu DU gyfan yn ein galluogi i gefnogi prosiectau treftadaeth o arwyddocâd cenedlaethol ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan ddarparu buddion diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd parhaol i gymunedau ym mhob un o'r pedair gwlad.

Fel un o'r ychydig gyrff cyhoeddus sy'n gweithredu ar draws y DU, gallwn gynnwys partneriaid ar draws ffiniau, dwysau cydweithio a dealltwriaeth o hanesion a diwylliannau a rennir a gweithredu fel rhwydwaith dysgu ar gyfer treftadaeth. Mae ein model DU gyfan yn creu cyfleoedd rhannu gwybodaeth ac arloesi a fyddai'n anodd eu hefelychu trwy systemau ariannu ar wahân, er enghraifft rydym eisoes yn gweithio gyda Defra, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Tirwedd Cymru, RSPB a Natural England ar ymateb strategol i'r tanau gwyllt dinistriol yr haf hwn.

Y tu hwnt i ariannu prosiectau unigol, mae ein rôl yn ein galluogi i weithredu fel rhwydwaith dysgu DU gyfan ar gyfer treftadaeth, lle gellir profi, mireinio ac addasu dulliau llwyddiannus a ddatblygwyd mewn un wlad i'w defnyddio mewn mannau eraill. Gall enghreifftiau eraill megis adfywio canol trefi a arweinir gan dreftadaeth drwy Townscape Heritage Initiative, modelau cadwraeth ar raddfa tirweddau a ddatblygwyd drwy Gysylltiadau Tirwedd a phrosiectau perchnogaeth gymunedol fel trosglwyddo asedau fel Bangor Courthouse yng Ngogledd Iwerddon gael eu profi, eu mireinio a'u haddasu mewn mannau eraill. Mae rhannu arbenigedd a thystiolaeth yn helpu cymunedau i adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio, osgoi ailddyfeisio atebion, cyflymu'r ddarpariaeth a rhannu manteision prosiectau llwyddiannus y tu hwnt i'w lleoliad gwreiddiol.

Mae Treftadaeth 2033 yn galluogi pobl i ddweud wrthym pa dreftadaeth sy'n bwysig iddyn nhw ac sydd angen cefnogaeth y Loteri Genedlaethol. Fel y disgrifiwyd yn gynharach, mae ein rhaglen grant sengl a'n timau lleol yn helpu cymunedau i gyrchu ariannu, adeiladu gallu a datblygu partneriaethau hirdymor.

Rydym hefyd yn defnyddio mewnwelediad allanol drwy'r amser wrth weithredu ein strategaeth Treftadaeth 2033. Bu i ni ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r cynllun cyflwyno presennol a sut y dylai hwn addasu i gwrdd â heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd cyfleoedd ystyrlon i bobl ifanc, ymddiried yn eu lleisiau a'u gwerthfawrogi. Myfyriodd Aleena Hussain – a ymgysylltodd gyntaf â threftadaeth drwy brosiect a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol a gyflwynwyd gan Curious Minds yn Wigan:

“Heb y Loteri Genedlaethol, 'dw i ddim yn meddwl y byddai modd i mi ddweud y byddwn i ble yr ydw i heddiw. Dim ond oherwydd y Loteri Genedlaethol a chefnogaeth staff Curious Minds yr oedd fy ngwaith gyda Curious Minds yn bosibl. Yn aml, mae pobl ifanc yn cael eu diystyru a'u hystyrydebu; fodd bynnag, profodd gweithio gyda chi i fod y gwrthwyneb i hynny. Teimlais i mi

gael fy ngrymuso, eich bod yn ymddiried ynof ac yn fy ngwerthfawrogi a bod fy marn yn cael ei pharchu a'i hystyried yn wirioneddol.

“Heb gyfleoedd o'r fath wedi'u darparu gan y Loteri Genedlaethol, mae'r bwlch rhwng rhyngweithio a chyfranogiad pobl ifanc yn y sector treftadaeth yn ehangu. Ni fu'r sector treftadaeth erioed yr un mwyaf 'cyfeillgar i bobl ifanc' na hygyrch, a heb gyfleoedd o'r fath, mae mewn perygl o golli cyfraniad hanfodol cenedlaethau'r dyfodol. Dim ond drwy ymddiried mewn pobl ifanc o fewn y sector treftadaeth, a chydabod y gwerth maen nhw'n ei gynnig, y bydd hyn o'r budd mwyaf.”

Mae profiad Aleena yn dangos effaith hirdymor bosibl buddsoddi gan y Loteri Genedlaethol, nid yn unig o ran cysylltu pobl ifanc â threftadaeth ond hefyd wrth ddatblygu hyder, sgiliau ac arweinwyr y dyfodol a fydd yn mynd ymlaen i gyfrannu at eu cymunedau a'r sector treftadaeth.

3. Grymuso cymunedau

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn galluogi pobl i siapio penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae ein prosesau rhoi grantiau wedi esblygu drwy waith gyda chymunedau, sefydliadau a phartneriaid, ac rydym yn croesawu mwy o ddeialog â llywodraeth y DU ar wreiddio llais y cyhoedd mewn ariannu achosion da.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar dair elfen nad ymdriniwyd â hwy yn gynharach wrth sôn am weithio'n lleol: y fframwaith penderfyniadau ffurfiol, lleisiau newydd mewn llywodraethu a dulliau gwneud grantiau sy'n cynyddu asiantaeth gymunedol. Fel dosbarthwr sefydledig, gyda hanes cryf o gydweithio â chymunedau, mae gennym lawer i'w gyfrannu at y drafodaeth ynghylch datblygu ariannu achosion da yn y dyfodol. Yn yr adran hon, rydym yn nodi sut yr ydym yn gwneud ein penderfyniadau, sut rydym yn cyflwyno lleisiau newydd i'n prosesau gwneud penderfyniadau a sut rydym yn addasu ein prosesau gwneud grantiau ac yn cefnogi ffyrdd newydd o weithio i gynyddu asiantaeth pobl a chymunedau.

Sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau

Mae ein penderfyniadau ariannu'r Loteri Genedlaethol yn gweithredu o fewn ein Dogfen Fframwaith gyda DCMS. Mae hyn yn gofyn am roi ystyriaeth ddyledus i God Ymarfer Da Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog a chydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus a Safonau Swyddogaethol perthnasol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chyllid, gweithgarwch masnachol a gwrth-dwyll.

O fewn y fframwaith hwnnw, mae penderfyniadau'n galw ar arbenigedd, tystiolaeth a mewnwelediad lleol. Mae'r tair lefel, fel y'u nodir isod, yn cyfateb i raddfa'r prosiect ac yn cael eu hategu gan ddata'r tabl ar y gyfran o brosiectau ac ariannu a ddyfarnwyd ers 2023:

- Mae staff arbenigol sy'n gweithio ar draws y DU ac a gefnogir gan baneli cynghori lleol yn gwneud penderfyniadau ar grantiau hyd at £250,000.
- Mae pwyllgorau ardal a gwlad yn gwneud penderfyniadau ar grantiau rhwng £250,000 a £5m (a hefyd yn cynghori'r Bwrdd ynghylch penderfyniadau ar grantiau uwchlaw £5m).
- Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gwneud penderfyniadau ar grantiau dros £5m.

Lefel y grant	Penderfynwr	Cyfran o gyfanswm y prosiectau a gefnogwyd ers 2023	Cyfran o'r cyfanswm ariannu a ddyfarnwyd ers 2023
£10,000 i £250,000	Timau lleol	80%	28%

Lefel y grant	Penderfynwr	Cyfran o gyfanswm y prosiectau a gefnogwyd ers 2023	Cyfran o'r cyfanswm ariannu a ddyfarnwyd ers 2023
£250,000 i £5m	Pwyllgorau ardal a gwlad	17%	53%
Dros £5m	Bwrdd Ymddiriedolwyr	3%	19%

Fel y dangosir uchod, mae mwy na 95% o benderfyniadau ariannu'n cael eu gwneud yn lleol, gan bwyllgorau ardal a gwlad neu'n cael eu dirprwyo i staff mewn swyddfeydd ardal a gwlad. Mae hyn yn gosod penderfyniadau'n agos at gymunedau gan sicrhau y gall cyllidebau gefnogi uchelgeisiau pobl, cymunedau a sefydliadau ar draws y DU.

Gwneir penodiadau i'r chwe phwyllgor ardal a gwlad drwy broses recriwtio agored. Rydym yn chwilio am aelodau pwyllgor sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwledydd a'r ardaloedd y mae pob pwyllgor yn ymdrin â nhw, a gwybodaeth arbenigol am feysydd treftadaeth penodol. Mae aelodaeth y pwyllgorau'n cwmpasu ystod eang o gefndiroedd a phrofiadau.

Mae ein Hymddiriedolwyr a'n haelodau pwyllgor yn ffurfio'r rhan anweithredol ffurfiol o'n prosesau gwneud penderfyniadau a'n llywodraethu. Penodiadau cyhoeddus a wneir gan y Prif Weinidog yw ein cadeirydd a'n Bwrdd Ymddiriedolwyr, gan ddilyn proses penodiadau cyhoeddus sy'n cael ei rheoleiddio o dan y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus. Gweithredir y broses benodi gyda chyfranogiad a chynghor gan DCMS fel adran noddi. Mae'r ymddiriedolwyr yn cynnwys cadeiryddion y chwe phwyllgor ardal a gwlad.

Penodir Ymddiriedolwyr y Bwrdd am dymhorau tair blynedd, ac fel arfer penodir aelodau'r pwyllgor am dymhorau pedair blynedd, sy'n golygu bod gennym gyfle i adnewyddu'r ystod o safbwyntiau yn ein prosesau gwneud penderfyniadau'n rheolaidd. Ond nid dyma'r unig ffordd yr ydym yn gweithredu i sicrhau bod ein llywodraethu'n ymateb i leisiau gwahanol.

Yn rhy aml mae pobl ifanc yn cael eu cau allan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, fel y nodwyd yng nghasgliad [Materion Ieuenctid: Eich Strategaeth Ieuenctid Genedlaethol](#): "mae gormod o bobl ifanc yn teimlo nad yw eu llais o unrhyw bwys". Mae'r Gronfa Treftadaeth wedi cymryd cam mawr tuag at roi llais i bobl ifanc yn ein llywodraethu. [Mae ein rhaglen Arweinwyr Treftadaeth y Dyfodol](#) yn fenter i oedolion ifanc 18 i 30 oed sydd â diddordeb mewn treftadaeth, waeth a oes ganddynt brofiad blaenorol yn y sector ai beidio.

Penodwyd y garfan gyntaf o Arweinwyr Treftadaeth y Dyfodol ym mis Chwefror 2026, gyda 12 o gyfranogwyr o bob cwr o'r DU. Maent yn treulio 18 mis yn cysgodi pob un o bwyllgorau ardal a gwlad y Gronfa Treftadaeth. Nid yw'r cyfranogwyr yn

Ymddiriedolwyr nac ydynt ychwaith yn gwneud penderfyniadau ffurfiol, ond maent yn cyfrannu safbwyntiau at drafodaethau ariannu, ac ar yr un pryd yn dysgu sut mae llywodraethu'n gweithredu. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu o'r rhaglen hon a byddwn yn ystyried sut y gallem newid ein dull o wneud penderfyniadau yn y dyfodol wrth ymateb i hynny. Mae'r rhaglen hefyd yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth lawn i'r bobl ifanc.

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn cefnogi prosiectau o lawer o wahanol feintiau, felly mae angen i'n trefniadau llywodraethu adlewyrchu graddfa ac effaith pob cais. Mae angen goruchwyliaeth ar lefel DU, ardal neu wlad ar gyfer prosiectau mwy. Mae ein llywodraethu anweithredol ffurfiol yn darparu'r oruchwyliaeth honno, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel ddaearyddol gywir a'u bod yn cael eu llywio gan bwyllgorau a staff sydd â gwybodaeth leol. Mae hefyd yn helpu'r Bwrdd i gynnal goruchwyliaeth o ymrwymadau ariannol, y cyllidebau sydd ar gael a galw tebygol yn y dyfodol, gan gefnogi ein cyfrifoldeb fel stiwardiaid arian cyhoeddus da.

Saif ein trothwyon grant o fewn y fframwaith gwneud penderfyniadau ehangach hwn.

Cyn cyflwyno'r dull presennol ar ddechrau Treftadaeth 2033, bu i ni adolygu'r galw am grantiau prosiectau treftadaeth. Fe wnaethom osod y trothwy isaf ar £10,000 gan i dystiolaeth flaenorol ddangos mai dyma'r lefel isaf o ariannu sydd ei hangen (er hynny, mae grantiau a ddyfernir trwy ein dull grantiau cymunedol yn aml yn llai na hyn). Cefnogwyd y dull hwn yn ystod mewnbwn rhanddeiliaid i gynllun cyflwyno 2026–2029 y cyfeiriwyd ato'n gynharach. Ar y trothwy uwch (hyd at £10m), mae angen buddsoddi cyfalaf sylweddol ar lawer o brosiectau treftadaeth i adnewyddu asedau hanesyddol, ac mae hyn yn parhau i fod yn faes o alw sylweddol am ein hariannu.

Mae'r galw hwn yn cynnwys sefydliadau mawr fel amgueddfeydd cenedlaethol. Er enghraifft, yn ddiweddar dyfarnwyd £9.7m i Amgueddfeydd Brenhinol Greenwich tuag at drawsnewid Arsyllfa Frenhinol Greenwich. Bydd y buddsoddiad yn gwella orielau, adeiladau hanesyddol a chyfleusterau ymgysylltu â'r cyhoedd o fewn un o safleoedd amgueddfa genedlaethol blaenllaw'r DU.

Mae buddsoddi ar raddfa fawr mewn asedau treftadaeth pwysig hefyd o fudd i leoedd y tu hwnt i sefydliadau cenedlaethol. Er enghraifft, mae ein buddsoddiad o £15.5m ym Mhier Birnbeck, Weston-Super-Mare, yn helpu i achub tirnod arfordirol o bwys cenedlaethol, sydd wedi bod ar Gofrestr Treftadaeth mewn Perygl Historic England ers 1998. Bydd y prosiect yn rhoi'r pier hanesyddol dan gadwraeth, yn ei ailagor i'r cyhoedd ac yn cefnogi adfywio yn y dref arfordirol hon yng Ngogledd Gwlad yr Haf trwy gynyddu gweithgarwch ymwelwyr a defnydd cymunedol.

Cynnwys cymunedau'n fwy yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

Mae grantiau cymunedol yn rhoi llais uniongyrchol i bobl leol a hefyd yn gwneud grantiau bach a micro yn hygyrch i sefydliadau llawr gwlad. Mae partneriaid lleol dibynadwy yn derbyn ariannu a chymorth i ddosbarthu grantiau yn unol â'n

hegwyddorion buddsoddi, gan ddod â phenderfyniadau'n agosach at gymunedau, lleihau rhwystrau a chefnogi gweithgareddau a allai fel arall fod yn rhy fach neu'n rhy ddwys o ran adnoddau i gyrchu ariannu'r Loteri Genedlaethol yn uniongyrchol.

Ers lansio Treftadaeth 2033, mae'r Gronfa Treftadaeth wedi gwneud mwy na 90 o ddyfarniadau sy'n ymgorffori rhaglenni grantiau cymunedol o fewn prosiectau ehangach, gan gynnwys y canlynol:

- Yn Stryd Sauchiehall yn Glasgow, mae ariannu grant cymunedol yn rhan o'n buddsoddiad menter strategol ehangach Treftadleoedd, gan alluogi gwneud penderfyniadau lleol a gweithgarwch a arweinir gan y gymuned o fewn rhaglen adfywio ehangach.
- Dyfarnwyd £249,900 i Theatres Trust drwy ei brosiect [Resilient Theatres: Resilient Communities](#). Dros dair blynedd, dosbarthodd yr Ymddiriedolaeth fwy na £175,000 drwy grantiau cymunedol i 21 o grwpiau a fu'n gofalu am neu'n ceisio cymryd drosodd adeiladau theatr hanesyddol. Nod penodol y rhaglen oedd darparu grantiau bach, hygyrch, gan helpu grwpiau cymunedol i ddatblygu cynlluniau, adeiladu gallu a siapio dyfodol asedau treftadaeth sydd o bwys iddynt.
- Mae'r rhaglen [Saving Our Rural Heritage](#), a gefnogir gan y Gronfa Treftadaeth ac a gyflwynir gan RAPID, yn darparu grantiau hyd at £5,000, ochr yn ochr â chymorth datblygu ymarferol, ar gyfer grwpiau cymunedol gwledig ar draws ardal Derry a Strabane. Sefydlwyd y rhaglen yn benodol i alluogi cymunedau lleol i ddathlu, gwarchod a hyrwyddo eu treftadaeth eu hunain, gan eu grymuso i nodi blaenoriaethau a chyflwyno prosiectau sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau lleol.

Mae'r rhaglenni hyn yn dangos sut y gall grantiau cymunedol datganoledig ehangu cyfranogiad ar lawr gwlad a chyfeirio ariannu at yr hyn y mae pobl leol yn ei werthfawrogi tra'n cynnal stiwardiaeth gyfrifol.

Ymysg y ffyrdd eraill yr ydym wedi cefnogi cymunedau i gymryd rhan mewn penderfyniadau ariannu, adeiladu gallu a helpu sefydliadau treftadaeth i symud y tu hwnt i ymgynghori, mae:

- [The Centenary Restoration Fund yn Stoke-on-Trent](#), a gefnogwyd drwy ein rhaglen Treftadleoedd. Gwahoddwyd trigolion lleol i helpu penderfynu ar flaenoriaethau ariannu drwy bleidlais gyhoeddus. Helpodd mwy na 600 o bleidleisiau i nodi 24 o henebion, cofebau, cerfluniau a thirnodau hanesyddol i dderbyn cyfran o tua £240,000 mewn ariannu atgyweirio a chadwraeth. Mae'r fenter yn dangos sut yr ydym yn cefnogi partneriaid i roi gwneud penderfyniadau yng ngofal cymunedau, gan sicrhau bod ariannu'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol yn hytrach na dyfarniadau sefydliadol yn unig. Roedd cyfranogiad cymunedol yn ymestyn y tu hwnt i bleidleisio, gyda chyfleoedd i drigolion ddysgu sgiliau cadwraeth, rhannu straeon lleol a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwaith adfer.

- [Birmingham Museums Citizens' Jury](#), a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham, a ddaeth â thrigolion ynghyd sy'n adlewyrchu amrywiaeth Birmingham, gan ofyn iddynt beth mae pobl leol ei eisiau gan eu hamgueddfeydd nawr ac yn y dyfodol, a sut y dylai'r amgueddfeydd ymateb. Ar ôl mwy na 30 awr o ddysgu, trafod ac ystyried, cynhyrchodd y rheithgor 20 o argymhellion a gyflwynwyd yn uniongyrchol i arweinwyr yr Ymddiriedolaeth ac a ddefnyddiwyd i lywio blaenoriaethau'r dyfodol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys hygyrchedd, cynhwysiad, ymgysylltu cymunedol, hyrwyddo a'r rôl y dylai amgueddfeydd ei chwarae ym mywyd y ddinas. Dangosodd y prosiect sut y gall buddsoddiad y Gronfa Treftadaeth ddarparu gallu o fewn y sector treftadaeth i symud y tu hwnt i ymgynghori i wneud penderfyniadau gwirioneddol ar y cyd, gan roi pobl leol wrth wraidd siapia sefydliadau diwylliannol a sicrhau bod sefydliadau treftadaeth yn atebol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- Mae ein buddsoddiad o £5miliwn yn rhaglen [Ymddiriedolaethau Datblygu Treftadaeth y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol](#) wedi helpu i greu sefydliadau a arweinir yn lleol sy'n dod â thrigolion, busnesau a phartneriaid cyhoeddus ynghyd i siapia dyfodol adeiladau a strydoedd mawr hanesyddol. Mae hyn yn adeiladu gallu ymddiriedolaethau cymunedol i gaffael, aildddefnyddio a rheoli asedau treftadaeth. Mae'r rhaglen yn darparu mecanwaith hirdymor i bobl leol ddylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi a sbarduno adfywio ehangach yn eu cymunedau.
- Roedd Rhaglen Lle Historic Environment Scotland a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Glasgow yn cynnwys cymunedau wrth siapia buddsoddi yn eu treftadaeth leol drwy [datblygu Pecyn Adnoddau Profiadau a Deimlwyd](#). Mae'r canllaw hwn yn darparu dulliau ymarferol, addasadwy o gasglu a dehongli ymatebion emosiynol a synhwyraidd i dreftadaeth.

Grymuso grantïon ym mhob cam o'r daith grant

Fel ariannwr y Loteri Genedlaethol, rydym yn ymwybodol bod sut rydym yn gweithio gyda derbynyddion grantiau'n rhan annatod o ddarpariaeth lwyddiannus. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i'w galluogi i gyflwyno'r prosiectau sy'n bwysig iddynt hwy a'u cymunedau o ddifrif, ac rydym yn eu cefnogi drwy gydol y daith grant i gyflwyno'r hyn y maent hwy a'u cymunedau yn ei werthfawrogi.

- Mae Treftadaeth 2033 yn darparu dull strategol galluogol sy'n agored i bobl a chymunedau gyflwyno'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw ar gyfer ariannu'r Loteri Genedlaethol. Mae'r gefnogaeth uniongyrchol a ddarperir gan ein timau lleol yn allweddol i hyn.
- Lle byddwn yn nodi heriau penodol neu fylchau mewn capasiti, rydym yn ategu ein cefnogaeth ymgysylltu gyda gweminarau ar-lein rheolaidd a chymorthfeydd cyngor i gynyddu ein cyrhaeddiad, ac rydym yn darparu amrywiaeth o [ganllawiau arfer da](#) sy'n ymdrin â sgiliau generig fel cynllunio

busnes, gwerthuso a chynhwysiad, ynghyd â materion penodol i dreftadaeth fel cadwraeth a gwarchodaeth ddigidol.

- Rydym yn cynnig cefnogaeth ymgynghori arbenigol i'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu drwy [ein fframwaith Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi \(RoSS\)](#). Mae ymgynghorwyr yn darparu cyngor arbenigol i dderbynyddion grantiau, gan weithredu fel ffynhonnell arbenigedd technegol, cefnogaeth rheoli risgiau a mentora prosiect ar draws meysydd gan gynnwys adeiladu treftadaeth a diwylliant, rheoli prosiectau, datblygu a rheoli busnes, ymgysylltu â'r cyhoedd â threftadaeth a'r amgylchedd naturiol. Maent yn helpu prosiectau i reoli risgiau, cryfhau cyflwyniad, adeiladu gallu sefydliadol a chyflawni canlyniadau llwyddiannus.
- Fel ariannwr strategol, rydym yn chwarae rôl bwysig wrth adeiladu gallu'r sector. O 2022 i 2024, fel rhan o'n menter [Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth](#), fe wnaethom ariannu 17 o sefydliadau a phartneriaethau treftadaeth i ddylunio a sefydlu rolau a chyfleoedd gwirfoddoli digidol newydd. Cefnogodd hyn sefydliadau i adeiladu gallu digidol a chyfoethogi arfer sefydliadol drwy ddatblygu cyfleoedd newydd i'r cyhoedd gymryd rhan. Roedd cydlynnydd arbenigol ar gael i roi arweiniad, datrys problemau a hwyluso dysgu ar y cyd ar draws pob prosiect, a ffurfiodd llawer o brosiectauartneriaethau dysgu. Rydym nawr yn ymateb i'r genhedlaeth nesaf o faterion sy'n wynebu treftadaeth a'r rhai a all elwa o'n hariannu yn y dyfodol, gan gynnwys [partneru â Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau \(AHRC\) i gyflwyno prosiect cymrodoriaeth 'Bridging Responsible AI Divides \(BRAID\)'](#) sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) i sicrhau bod cynigion prosiectau treftadaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau hinsawdd fel rhan o'u cyflwyniad ac wrth gynllunio cynnal a chadw dros y tymor hwy.

Mae ein dull gweithredu'n bwysig ar bob graddfa gan fod prosiectau mawr a bach fel ei gilydd yn adlewyrchu dyheadau pobl a chymunedau. [Derbyniodd Stori Brymbo grant o £8.3m i drawsnewid hen Waith Haearn a Dur Brymbo ger Wrecsam](#) yn atyniad treftadaeth mawr, hyb cymunedol a gofod busnes. Mae'r buddsoddiad mawr hwn yn dangos y gall grantiau ar y raddfa hon ddiwallu dyheadau cymunedol ac ennyn diddordeb pobl leol yn effeithiol. Derbyniodd Ymddiriedolaeth Treftadaeth Brymbo grant datblygu yn 2017 a alluogodd yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu ymgysylltu cymunedol, cryfhau llywodraethu ac ymgymryd â gwaith dichonoldeb, gan helpu i adeiladu'r sylfeini ar gyfer prosiect mwy.

Wedi hynny, cydweithiodd y Gronfa Treftadaeth yn agos â'r Ymddiriedolaeth i oresgyn heriau sylweddol, gan gynnwys materion perchnogaeth tir, darparu cyngor, cefnogaeth ymgynghoriaeth, amserlenni hyblyg ac ariannu ychwanegol lle bo angen. Fe wnaethom gydweithio hefyd â phartneriaid gan gynnwys Cyngor Sir Wrecsam, Cadw a Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (a ddarparodd £1.4m o ariannu cyfatebol) i gydlyn cefnogaeth a helpu i sicrhau y gallai'r prosiect symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam cyflwyno.

Mae ein dull yn cefnogi gallu ac asiantaeth ein derbynyddion grantiau a'u galluoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau ym mhob cam o brosiect. Mae canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o ymchwil barhaus i effaith hirdymor ein buddsoddiadau cyfalaf yn

nodi gwerth y dull hwn. Ystyriodd 25 o brosiectau a ariannwyd rhwng 2004 a 2020. Mae dadansoddi hyd yma wedi nodi bod yr adnoddau nad ydynt yn arian parod (fel cefnogaeth a monitro prosiectau gan ymgynghorwyr o'n fframwaith RoSS a chefnogaeth ein timau ymgysylltu a buddsoddi lleol), proses ymgeisio cam datblygu a chyflwyno dau gam a hyblygrwydd y Gronfa Treftadaeth yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan grantïon ac yn cael eu hystyried yn allweddol i gynnaladwyedd hirdymor eu prosiectau.

Roedd sefydliadau'n gwerthfawrogi gallu ymateb i amgylchiadau newidiol a chanfyddiadau ymgysylltu cymunedol, gyda chefnogaeth gan y Gronfa Treftadaeth i lywio cymhlethdod. Fe wnaethant adrodd bod gofynion i ehangu cyfranogiad yn cryfhau prosiectau cyfalaf. Dywedodd un cyfwelai:

“Maen nhw [y Gronfa Treftadaeth] yn rhaff achub o ran cefnogaeth. Un o'r arianwyr gorau yr ydym yn gweithio gyda nhw. Maen nhw'n gweithio gyda chi. Maen nhw'n neilltuo pobl cyn ymgeisio, ac unwaith y byddwch chi'n llwyddiannus, maen nhw gyda chi ar y daith.”

Mae gwerthusiadau o Dreftadleoedd, Trefi a Dinasoedd Natur a rhaglenni blaenorol gan gynnwys Areas of Focus yn adleisio'r canfyddiadau hyn.

Rydym o'r farn bod y fath ddull yn galluogi ac yn grymuso derbynyddion grantiau drwy gydol oes prosiectau ac yn osgoi eu cyfyngu o fewn fframweithiau anhyblyg a allai weithio yn erbyn blaenoriaethau cymunedau.

4. Symleiddio mynediad a lleihau biwrocratiaeth

Dylai ein proses ymgeisio alluogi pobl a chymunedau ar draws y DU i gyrchu ariannu ar gyfer yr hyn sy'n bwysig iddynt. Rhaid i'r broses ystyried fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol, yn ogystal â llywodraethu ffurfiol, a all greu rhwystrau i fynediad. Mae profiad y Gronfa Treftadaeth o ddyfarnu ariannu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiectau treftadaeth ers dros 30 mlynedd yn golygu ein bod wedi datblygu dull sy'n cydbwysu prosesau effeithlon a theg, stiwardiaeth gyfrifol o arian cyhoeddus a chefnogaeth hygyrch i ymgeiswyr.

Lleihau'r rhwystrau i gyrchu ein hariannu

Rydym eisoes wedi cymryd camau ymarferol i symleiddio mynediad at ariannu a gwella profiadau ymgeiswyr. Rydym yn defnyddio ymchwil defnyddwyr, adborth gan gwsmeriaid a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i wneud ein prosesau'n hygyrch, yn reddfol ac yn gymesur. Rydym hefyd yn cefnogi'r egwyddor 'dywedwch wrthym unwaith', gan ddefnyddio gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy fel Tŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau lle bo'n briodol. Mae hyn yn lleihau dyblygu i ymgeiswyr ac ar yr un pryd yn cynnal sicrwydd a diwydrwydd dyladwy cadarn.

Mae'r camau rydym wedi'u cymryd i symleiddio'r broses ymgeisio am grant ar draws ein rhaglenni, gan sicrhau bod y lefel o gydymffurfiaeth ofynnol yn gymesur â maint a risg y grant, yn cynnwys y canlynol:

- **Symleiddio'r llwybr tuag at ariannu.** Ar ôl gweithredu ystod eang o raglenni grant wedi'u teilwra, yn 2019 fe wnaethom gydgrynhoi ein prosesau dyfarnu grantiau yn un rhaglen grant gyda phedair lefel o gymhlethdod gan ddibynnu ar swm y grant sydd ei angen. O dan Treftadaeth 2033, rydym wedi mynd ymhellach drwy adolygu a chydgrynhoi ein prosesau gwneud grantiau mewn un rhaglen gyda dwy brif lefel ariannu: £10,000–£250,000 a £250,000–£10m. Mae hyn yn rhoi un llwybr symlach i ymgeiswyr gyrchu ein hariannu, gan ganiatáu i ni gynnal rheolaethau priodol ar gyfer prosiectau gwerth uwch a risg uwch.
- **Un drws blaen ac un system ymgeisio.** Mae un system ar gyfer ymholiadau, ceisiadau, grantiau byw a phrosiectau wedi'u cwblhau'n golygu mai'r cyfan y mae angen i gwsmeriaid ei wneud yw sefydlu un cyfrif a darparu manylion eu sefydliad. Unwaith y bydd y cyfrif wedi'i gadarnhau, gallant gyrchu ein gwasanaethau a rheoli eu perthynas â ni o'r dechrau i'r diwedd trwy un system.
- **Gwneud cydymffurfiaeth yn gymesur ar gyfer grantiau llai.** Ar gyfer grantiau hyd at £250,000, rydym yn defnyddio dull talu 50/30/20, fel bod gan y rhai sy'n derbyn grantiau gyllid yn ei le i gyflwyno eu prosiectau a chefnogi eu llif arian parod. Cydnabuwyd na all llawer o ymgeiswyr posibl ariannu prosiect a hawlio arian mewn ôl-daliadau, felly rydym yn gwneud taliadau ymlaen llaw rheoledig. Mae hyn yn creu rhywfaint o risg i ni, ond rydym yn ystyried bod manteision cefnogi ystod ehangach o ymgeiswyr a grantïon yn gorbwysu'r risgiau.

- **Monitro cymesur ar ôl dyfarnu.** Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau gwaith i gymhwyso'r un dull cymesur o fonitro ar ôl i grantiau gael eu dyfarnu. Nid ydym ond yn gofyn am yr wybodaeth sydd ei hangen i fonitro cynnydd, darparu cefnogaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau grant.
- **Gwelliant parhaus trwy adborth a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.** Rydym yn gwrandao'n weithredol ar gwsmeriaid, gan gynnwys ymgeiswyr, grantion cyfredol a darpar grantion, yn ogystal â staff, aelodau pwyllgor ac Ymddiriedolwyr. Rydym yn defnyddio sgiliau dylunio rhyngweithio, dylunio cynnwys a phrofi defnyddwyr mewnol i sicrhau bod ein rhaglen grantiau a'n gwasanaethau grantiau'n hygyrch, yn reddfol ac yn hawdd eu deall. Rydym yn cymhwyso egwyddorion dylunio a arweinir gan ddefnyddwyr ac yn ceisio gofyn am wybodaeth unwaith ac ar yr amser iawn. Rydym yn profi dyluniadau drwy gydol y gwaith datblygu ac yn eu mireinio mewn ymateb i adborth gan ymgeiswyr a grantion.
- **Dysgu o arfer gwneud grantiau ehangach.** Fel rhoddwr grantiau profiadol, rydym yn meincnodi ein perfformiad yn erbyn safonau swyddogaethol Llywodraeth y DU a Fframwaith Asesu Gwella Grantiau Llywodraeth y DU. Rydym yn cydweithio â phartneriaid a chymheiriaid i'n helpu i wella a rhannu ein profiad, gan gynnwys rhwydwaith rhoddwyr grantiau CHB o fewn DCMS, Swyddogaeth Rheoli Grantiau Llywodraeth y DU a'r proffesiwn grantiau.

Defnyddio dull cymesur o ariannu

Mae cyfrannedd yn ffactor allweddol o ran sut yr ydym yn dylunio ac yn rheoli ein prosesau. Rydym yn derbyn mwy o risg ar lefelau grant is ac yn teilwra ein gofynion yn unol â hynny, yn hytrach na rhoi'r un lefel o faich ar bob ymgeisydd waeth beth fo maint y grant neu allu'r sefydliad.

Fodd bynnag, rhaid i ni ymateb i'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol yr ydym yn gweithredu ynddo a chymryd risgiau twyll a seiberddiogelwch a gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus i ystyriaeth, yn enwedig yr egwyddor o beidio â thalu cyn bod angen. Gall hyn greu heriau ymarferol i sefydliadau llai sydd â llai o adnoddau, lle y gall llif arian parod a chostau ymlaen llaw fod yn rhwystr gwirioneddol i gyfranogiad. Rhaid i ddull cymesur fod yn seiliedig ar nodi a rheoli risgiau'n effeithiol, gan gydnabod y gall tebygolrwydd ac effaith newid dros amser.

Mae yna hefyd risgiau penodol i dreftadaeth i'w hystyried, gan gynnwys y potensial am niwed i dreftadaeth neu i asedau treftadaeth gael eu camddefnyddio. Mae'r risgiau hyn yn golygu bod angen rhai gwiriadau a mesurau diogelwch o hyd, hyd yn oed lle rydym yn ceisio gwneud y broses mor syml a hygyrch â phosibl.

At hynny, rydym yn defnyddio ein system ymgeisio i gasglu data sy'n hanfodol ar gyfer dysgu o Treftadaeth 2033 a gwella ei heffaith ac olrhain cyfraniad ein hariannu at flaenoriaethau DCMS. Er enghraifft, gofynnwn i grantion adrodd yn erbyn nifer fach o gwestiynau demograffig, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol (er enghraifft, nifer o swyddi a gwirfoddolwyr).

5. Cyflwyno'n effeithiol ac yn effeithlon ac mewn partneriaeth

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn un o 12 dosbarthwr y Loteri Genedlaethol, ac mae ariannu ar gyfer achosion da treftadaeth yn rhan o dirwedd polisi treftadaeth ehangach y DU. Felly, rhaid ystyried tri amcan y cais am dystiolaeth o fewn y cyd-destun ehangach hwn. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â dosbarthwyr eraill, llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig a chyrff treftadaeth hyd braich eraill. Mae'r cyd-destun ehangach hwn yn siapio'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau ar gyfer gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd, rhywbeth y mae'n rhaid i bob gwasanaeth cyhoeddus ei ystyried, yn enwedig o ystyried yr uchelgeisiau a nodwyd yn [natganiad Ailweirio Cabinet y Wladwriaeth](#) diweddar.

Cydweithio ar draws teulu'r Loteri Genedlaethol

Rydym yn cydweithio'n agos â dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol, Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol (NLPU), DCMS a'r gweithredwr, Allwyn, i wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac effaith ariannu'r Loteri Genedlaethol. Drwy'r Fforwm Cyfarwyddwyr Cyllid a chyfarfodydd partneriaeth rheolaidd, mae dosbarthwyr yn rhannu gwybodaeth am berfformiad ariannol, rhagdybiaethau rhagamcanu a risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r cydweithrediad hwn wedi cryfhau dealltwriaeth gyfunol dosbarthwyr o sefyllfa gyffredinol ariannu'r Loteri Genedlaethol, mae wedi gwella'r gallu i ragamcanu ac wedi galluogi mwy o her, dysgu a thryloywder ar draws y teulu dosbarthwyr.

Er bod cyfleoedd yn bodoli i alinio'n agosach, mae hyn wedi'i gyfyngu gan wahaniaethau yng nghylchoedd gwaith statudol dosbarthwyr, modelau ariannu ac awydd am risg. Rhaid i ddosbarthwyr hefyd gynnal cronfeydd wrth gefn darbodus i reoli ansicrwydd incwm a bodloni ymrwymïadau presennol, yn enwedig buddsoddiadau cyfalaf aml-flwyddyn. Mae dosbarthwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am eu mantolenni a'u penderfyniadau ariannu eu hunain, yn hytrach nag am berfformiad cyfunol system ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ei chyfanrwydd.

Mae dosbarthwyr eisoes yn cydweithio ac yn rhannu adnoddau mewn nifer o feysydd. Rydym yn sicrhau bod ein fframwaith RoSS ar gael i Gyngor Celfyddydau Lloegr i gefnogi ei raglenni cyfalaf. Rydym yn gweithio gyda Chronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian, gan gynnwys rhannu arfer gorau ym maes caffael, dulliau rheoli ariannol, risg, cydymffurfiaeth ac archwilio.

Rydym hefyd yn cydweithio'n helaeth i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ariannu'r Loteri Genedlaethol. Gan weithio gydag Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol, rydym yn cydlynu gweithgarwch ymgyrchu drwy gydol y flwyddyn ac yn cefnogi mentrau fel Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol, sy'n rhoi cyfleoedd i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ar draws y DU ymgysylltu'n uniongyrchol â phrosiectau y maent wedi'u hariannu. Rydym yn annog sefydliadau treftadaeth o bob maint i gymryd rhan, gan helpu cymunedau lleol i gysylltu buddsoddiad y Loteri

Genedlaethol â lleoedd a sefydliadau y maent yn eu hadnabod ac yn eu gwerthfawrogi.

Rydym hefyd yn cefnogi gweithgarwch Gwobrau'r Loteri Genedlaethol ac wedi cydweithio'n agos ag Allwyn ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol ers 2024 i gryfhau argaeledd storïau ac astudiaethau achos sy'n berthnasol yn lleol a all gefnogi marchnata a gweithgarwch cyfryngau wedi'i dargedu. Er enghraifft, fe wnaethom helpu i arddangos prosiectau treftadaeth yn ystod Noson Fawr Sioeau Cerdd Allwyn a thynnu sylw at ariannu'r Loteri Genedlaethol ym Manceinion a'r rhanbarth ehangach.

Drwy Fforwm Cyfathrebu'r Loteri Genedlaethol, fe wnaethom nodi cyfleoedd i leihau costau drwy wasanaethau cyfathrebu a rennir. Ers 2026, mae'r Gronfa Treftadaeth wedi cymryd rhan mewn contract a rennir gydag Allwyn ar gyfer gwasanaeth monitro cyfryngau a detholiadau o'r wasg, ac mae dosbarthwyr eraill yn bwriadu ymuno wrth i'w contractau ddod i ben.

Mae Fforwm y Loteri Genedlaethol yn fecanwaith cydweithio allweddol, gan ddod â dosbarthwyr, Allwyn, Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol ac aelodau eraill o deulu ehangach y Loteri Genedlaethol ynghyd. Mae'r Fforwm yn galluogi sefydliadau i rannu materion sy'n dod i'r amlwg, darparu cefnogaeth i'w gilydd a datblygu cyfeiriad strategol a rennir. Un flaenoriaeth allweddol yw datblygu Strategaeth Data Un Loteri Genedlaethol. Rydym yn cefnogi'n gryf yr uchelgais i greu dull mwy cydgysylltiedig a chyson o gasglu, rheoli a rhannu data ar draws dosbarthwyr. Mae hyn yn cynnwys gwaith i sefydlu tacsonomeg data grantiau cyffredin, datrysiad hunaniaeth derbynnydd a rennir, model lleoliad cyson, gweledd gwell o weithgarwch ail-ddyfarnu a data dyfarniadau ac ymrwymïadau safonol.

O fewn y Gronfa Treftadaeth, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein galluoedd data ein hunain, gan gynnwys moderneiddio'r seilwaith data, ehangu'r defnydd o ddata wrth wneud penderfyniadau a gwerthuso effaith, datblygu ein [porth gweld data agored](#) (offeryn delweddu data) a darparu [data o ansawdd uchel ar grantiau](#) i DCMS, Cronfa Ddata Grantiau'r Loteri Genedlaethol, System Gwybodaeth Grantiau Llywodraeth y DU a 360Giving.

Fodd bynnag, bydd angen buddsoddi pellach ar draws y teulu dosbarthu – uwchlaw'r terfyn gweinyddol presennol – i sicrhau y gall pob dosbarthwr weithredu'n unol â safon gyson, gweithredu strategaeth ddata a rennir ac ymateb i newid technolegol a risgiau seiberddiogelwch. Byddai strategaeth ddata a rennir yn darparu manteision sylweddol, ond bydd ei gweithredu'n gofyn am arweinyddiaeth gyfunol gref a dull sy'n gwella ansawdd a defnyddioldeb data tra'n osgoi beichiau anghymesur ar ymgeiswyr a derbynnyddion grantiau. Gall tacsonomeg gyffredin o dermau, fel y'i eiriolir gan waith Fforwm y Loteri Genedlaethol ar un strategaeth ddata, helpu i fynd i'r afael â chysondeb data, ond ni fydd yn dileu'r angen am deilwra priodol.

Efallai y bydd cyfleoedd pellach i alinio systemau ymgeisio, ond mae angen cydbwysu hyn yn erbyn manteision systemau sydd wedi'u dylunio ar gyfer dulliau ariannu penodol. Mae alinio eisoes wedi'i sbarduno gan Safon Grantiau Llywodraeth y DU, sy'n berthnasol i bob CHB ac yn annog cydlynu dulliau, terminoleg a safonau.

Gall gwell aliniad wella effeithlonrwydd, ond ni fydd o reidrwydd yn symleiddio profiad y cwsmer. Mae rhwystrau i safoni llawn oherwydd bod dosbarthwyr yn gweithredu gyda gwahanol amcanion polisi, amgylcheddau gweithredu, awydd am risg a modelau ariannu. Fe wnaethom brofi'r her hon yn 2023 pan symudon ni i un rhaglen DU gyfan ar gyfer pob math o dreftadaeth, a oedd yn gorfod gweithio ar draws gwahanol sectorau treftadaeth, gweinyddiaethau datganoledig, gofynion cyfreithiol a mathau o ymgeiswyr. Mae pob maes ariannu hefyd yn defnyddio ei derminoleg ei hun. Er enghraifft, mae'r sector treftadaeth yn defnyddio iaith fel cadwraeth, gwarchodaeth ac adfer, sy'n wahanol i'r derminoleg a ddefnyddir mewn chwaraeon, celfyddydau ac ariannu cymunedol. Mae angen i arianwyr ddefnyddio iaith y mae eu cwsmeriaid yn ei deall, ac nid yw terminoleg generig bob amser yn hygyrch i ymgeiswyr.

Partneriaeth a chydweithredu â CHB treftadaeth eraill

Mae ariannu treftadaeth yn gweithredu o fewn amgylchedd polisi a chyflwyno ehangach. Felly, rhaid i'r Gronfa Treftadaeth weithio'n effeithiol ar draws yr amgylchedd polisi treftadaeth ehangach. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith gyda llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol ac awdurdodau strategol maerol yn Lloegr. Mae'r CHB a noddur gan lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn chwarae rhan bwysig mewn treftadaeth ac mae ein gwaith gyda nhw yn hanfodol i gyflwyno ein strategaeth a hyrwyddo pwrpas cyhoeddus ehangach treftadaeth. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff hyd braich eraill ym maes treftadaeth a diwylliant i gyflwyno rhaglenni sy'n cefnogi blaenoriaethau ehangach llywodraeth y DU ac yn sicrhau'r gwerth cyhoeddus mwyaf posibl. Er enghraifft:

- Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr, gan ddarparu cyngor arbenigol ar geisiadau i'r Gronfa Ystadau a Datblygu Amgueddfeydd (MEND), gan helpu i lywio penderfyniadau buddsoddi strategol ar draws y sector amgueddfeydd.
- Drwy'r [rhaglen Museum Futures](#), rydym yn gweithio gydag Amgueddfeydd ac Oriolau'r Alban a Llywodraeth Yr Alban, gan gyflwyno menter gwerth £4 miliwn a ariennir gan Lywodraeth Yr Alban sy'n cefnogi amgueddfeydd i ddod yn fwy cydnherth, cynaliadwy a chydweithredol. Rydym yn cyfrannu arbenigedd ac yn cydlynu'r ddarpariaeth i gyflawni amcanion y rhaglen a chefnogi cynnaladwyedd hirdymor amgueddfeydd Yr Alban.
- Drwy'r fenter strategol Trefi a Dinasoedd Natur, rydym yn partneru â Natural England, NatureScot, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon i gefnogi byd natur a threftadaeth naturiol mewn trefi a dinasoedd, gan ddod ag arbenigedd, gwneud penderfyniadau ar y cyd a chefnogaeth gydlynol ynghyd i gyflawni canlyniadau amgylcheddol, cymunedol a seiliedig ar le ar draws y DU.
- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar lefel lle, nid dim ond ar brosiectau unigol. Mae'r Gronfa Treftadaeth yn cydweithio'n agos â Historic Environment Scotland drwy'r [Gronfa Heritage and Place](#), gan helpu i gyflwyno adfywio

hirdymor, sy'n seiliedig ar le, mewn ardaloedd hanesyddol ar draws Yr Alban. Er bod y gronfa'n cael ei gweinyddu gan Historic Environment Scotland, rydym yn alinio ein rhaglenni ariannu, amserlenni ymgeisio ac arweiniad i helpu ymgeiswyr i sicrhau buddsoddi cyflenwol. Mae'r bartneriaeth hon yn galluogi cefnogaeth ar raddfa fwy ar gyfer adeiladau hanesyddol, datblygu sgiliau ac ymgysylltu cymunedol, gan ddangos sut mae sefydliadau treftadaeth yn cydweithio i gyflwyno canlyniadau a rennir ar gyfer lle, cymunedau ac adfywio lleol.

- Yn Lloegr, enghreifftiau pellach o gydweithio strategol, sy'n seiliedig ar le yw partneriaethau lle rhanbarthol a chefnogi awdurdodau lleol drwy'r Bartneriaeth Better Places a'r rhaglen Historic High Streets Action Zone.
- Rydym yn cydweithio â CHB eraill i fwyafu effaith digwyddiadau a phen-blwyddi arwyddocaol. Mae hyn wedi cynnwys Dinas Diwylliant y DU a Thref Diwylliant y DU, Gemau'r Gymanwlad Birmingham, ac yng Ngogledd Iwerddon bu i ni gweithio â CHB eraill, adrannau llywodraeth a sefydliadau datblygu cymunedol ar Ddegawd Canmlwyddiannau Gogledd Iwerddon yn ogystal â rhaglen ariannu Blwyddyn Diwylliant yr UE.
- Rydym yn darparu cyngor strategol i CHB partner lle mae hyn yn ychwanegu gwerth. Mae enghreifftiau'n cynnwys cymryd rhan ym Mhanel Grantiau Cenedlaethol Historic England i rannu mewnwelediad, yn enwedig am addoldai a chronfeydd cyfalaf treftadaeth mewn perygl, a datblygu Calon Treftadaeth y DU, panel ymchwil i gywain mewnwelediad rheolaidd ar faterion y sector, gan weithio mewn partneriaeth â Historic England a DCMS. Yn Yr Alban, rydym wedi partneru â NatureScot ar eu rhaglen Facility for Investment Ready Nature (FIRNS) i archwilio dulliau newydd o sbarduno buddsoddi preifat ym myd natur.
- Rydym hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Yn ystod y pandemig COVID-19, fe gydweithiom â Historic England i ddosbarthu £140m drwy Culture Recovery Fund for Heritage, rhan o becyn achub diwylliannol ehangach llywodraeth y DU. Er i'r meini prawf ariannu gael eu pennu gan DCMS, arweiniodd y Gronfa Dreftadaeth y prosesau ymgeisio, asesu, y cydlynu penderfyniadau a rheoli grantiau, gan sicrhau bod cymorth cyflym ac effeithiol yn cyrraedd sefydliadau treftadaeth ar draws Lloegr. Rydym hefyd wedi cyflwyno Species Survival Fund ar ran Defra a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur gyda llywodraeth Cymru, a ddarparodd grantiau bach i gymunedau i'w hannog i ymwneud yn fwy gweithredol â byd natur yn lleol.

Gweithio'n fwy effeithlon

Rydym yn lleihau gorbenion gweinyddol yn weithredol drwy symleiddio prosesau, gwella'r llif gwaith ac adrodd a gwneud defnydd gwell o awtomeiddio lle y gall ddileu ymdrech â llaw arferol. Rydym yn nodi, yn asesu ac yn gweithredu cyfleoedd technolegol newydd drwy ein Map Llwybr Technoleg, a lywodraethir gan fwrdd rhaglen gorfforaethol sy'n goruchwyllo newid strategol. Mae trawsnewid digidol yn rhan annatod o'r gwaith hwn, gan gynnwys gweithredu ecosystem AD newydd ac

ailosod a gwella ein systemau cyllid. Bydd hyn yn cefnogi ffyrdd mwy effeithlon o weithio, yn lleihau dyblygu, yn gwella mynediad at wybodaeth reoli ddibynadwy ac yn creu llwyfan gryfach ar gyfer gwella gwasanaethau yn y dyfodol.

Ym mis Ebrill 2023, cwblhawyd prosiect mudo data mawr i symud yr holl ddata grantiau i'n system rheoli grantiau Salesforce fewnol newydd. Cyn hyn, roedd aneffeithlonrwydd yn bodoli, gyda staff yn gorfod rheoli llwythi achosion ar ddau system drydydd parti etifeddol a system rheoli grantiau newydd Salesforce. Creodd y gwaith mudo hwn un ffynhonnell wirionedd ar gyfer data grantiau, gan wella'r profiad defnyddiwr i gwsmeriaid a staff a lleihau costau drwy ganiatáu i ddau system etifeddol gael eu cau i lawr.

Rydym yn cydnabod y potensial ar gyfer buddsoddi tebyg mewn technoleg i sbarduno gwelliant pellach, ond gallai'r terfyn gweinyddol fod yn gyfyngiad ar fuddsoddi pellach.

Rydym yn parhau i fod yn agored i gyfleoedd i rannu gwasanaethau corfforaethol os oes achos busnes a gwerth am arian clir y gellir ei ddangos. Rydym wedi ystyried cyfleoedd i gydweithio â dosbarthwyr eraill ar gyfer ein swyddogaethau corfforaethol ac yn rhannu gwybodaeth, rhwydweithiau a chyfleoedd caffael yn weithredol lle bo hynny'n fuddiol. Yn ymarferol, mae cynnydd wedi'i gyfyngu gan wahaniaethau ym maint sefydliadau, modelau gweithredu, llwyfannau technoleg, trefniadau llywodraethu a gofynion busnes. Er y gall gwasanaethau a rennir ar draws dosbarthwyr greu effeithlonrwydd, gallant hefyd leihau hyblygrwydd, creu cymhlethdod ychwanegol a chyfyngu ar ein gallu i deilwra gwasanaethau i'n sefydliad a'r sector treftadaeth. Byddai mynd i'r afael â'r materion hyn yn gofyn am fuddsoddiad y tu hwnt i'r hyn y mae'r terfynau gweinyddol presennol yn ei ganiatáu i gryfhau integreiddio systemau, ansawdd data a rheoli newid fel bod technoleg yn ildio enillion effeithlonrwydd parhaol.

Mabwysiadu technolegau newydd a deallusrwydd artiffisial (AI)

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn symud i raglen strwythuredig, ar draws y sefydliad, o fabwysiadu cyfrifol. Bu i ni gyhoeddi arweiniad AI ar gyfer y sector treftadaeth yn 2023 ac rydym wedi trefnu a chyfrannu at ddigwyddiadau ac ymgynghoriadau AI. Rydym wedi adeiladu gallu drwy ymchwil gyda'r sector, arolwg AI Calon Treftadaeth y DU, hyfforddi staff, cynlluniau peilot a chyhoeddi datganiadau tryloywder AI mewnol ac allanol. Mae gennym gweithgor AI traws-sefydliadol sy'n cwrdd bob mis. Mae llywodraethu AI yn cael ei ffurfioli trwy ein Cynllun Gweithredu AI tair blynedd, gyda goruchwyliaeth gan y Bwrdd Rhaglen Dechnoleg a pherchennog cyfrifol uwch. Mae Rheolwr Arloesi AI yn cael ei recriwtio.

Mae gweithgarwch cynnar eisoes wedi dangos gwerth mewn meysydd fel dadansoddi testun, cymorth drafftio, chwilio am wybodaeth, codio a gwella llifoedd gwaith. Mae mynediad staff at offer AI wedi'i gyfyngu'n llym i Microsoft Copilot er mwyn sicrhau seiberddiogelwch ac i ddiogelu data, ac mae mabwysiadu hyd yma wedi datblygu trwy arbrofi a arweinir gan staff.

Bydd y Cynllun Gweithredu'n ein helpu i symud tuag at ddull mwy strwythuredig, gan ganolbwyntio ar wella'r daith grant, datblygu gwasanaethau a gefnogir gan AI ar gyfer staff a chwsmeriaid, datgloi mewnwelediad o ddata hanesyddol a chefnogi'r sector treftadaeth ehangach. Bydd ein systemau AD a chyllid newydd hefyd yn cael eu cynorthwyo gan AI, gan gryfhau'r sylfeini ar gyfer awtomeiddio trwy lifoedd gwaith, adrodd, ansawdd data a hunanwasanaeth gwell. Y prif rwystrau i gynyddu'r raddfa yw llywodraethu, diogelu data, diogelwch gwybodaeth, hyder a sgiliau staff a sicrhau ansawdd.

Rydym wedi ymgymryd â threialon AI ymarferol, yn enwedig ym meysydd grantiau a data. Mae'r rhain yn cynnwys tagio mwy na 30 mlynedd o ddata buddsoddi a thagio archifau delweddau â chymorth AI, a staff sy'n treialu Microsoft 365 Copilot.

Mae'r egwyddorion y tu ôl i'n Cynllun Gweithredu AI yn llywio ei ddyluniad, gan amlinellu sut y byddwn yn ymateb i fabwysiadu AI, nid dim ond yr hyn y byddwn yn ei gyflwyno. Mae ei hyd tair blynedd yn adlewyrchu pa mor gyflym y mae AI yn datblygu a'r amser sydd ei angen i gyflawni newid sefydliadol ystyrlon.

Egwyddorion allweddol y cynllun yw:

- Mabwysiadu cyfrifol yng nghyd-destun y sector cyhoeddus – sicrhau bod gwneud penderfyniadau dynol yn parhau i fod wrth wraidd ein prosesau gwneud grantiau, tra'n archwilio'r manteision a chynyddu eu graddfa.
- Alinio â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol – gwreiddio goruchwyliaeth AI o fewn trefniadau llywodraethu presennol.
- Alinio â dull Llawlyfr AI llywodraeth y DU – cyflwyno fframwaith gwneud penderfyniadau haenog, sy'n paru gofynion llywodraethu â lefel y risg dan sylw.
- Gallu, nid technoleg yn unig – blaenoriaethu hyder staff ac aeddfedrwydd sefydliadol dros gyflwyno offer ar garlam.
- Arbrofi a arweinir gan dystiolaeth – model profi a dysgu sy'n seiliedig ar dreialon, gwerthuso strwythuredig, meini prawf llwyddiant wedi'u dogfennu a phenderfyniadau mabwysiadu/addasu/stopio clir.
- Gwerth cyhoeddus, naws agored a chydweithio – ymrwymiad i ddysgu a rhannu.

Yn fwy eang, rydym yn [partneru â rhaglen BRAID UKRI ar gymrodoriaeth](#) a fydd yn cynhyrchu prototeip o offeryn lliniaru effaith amgylcheddol i helpu ymgeiswyr ac aseswyr i ddeall effeithiau hinsawdd, mesurau addasu ac ystyriaethau cynladwyedd hirdymor yn well. Bwriad yr offeryn yw gwella allbynnau prosiectau treftadaeth a chynyddu gwerth cyhoeddus.

Mae'r Gronfa Treftadaeth hefyd yn cymryd rôl arweiniol drwy sefydlu a chadeirio Grŵp Deallusrwydd Artiffisial ac Arloesi Arianwyr y Loteri Genedlaethol newydd, gyda'r cyfarfod cyntaf i'w gynnal ym mis Medi 2026. Y pwrpas yw rhannu dysgu ar lywodraethu AI, cefnogi staff, arloesedd, mabwysiadu cyfrifol a nodi cyfleoedd.

6. Y camau nesaf

Yn y Gronfa Treftadaeth rydym yn ystyried bod y cais am dystiolaeth yn gyfle i bob un o randdeiliaid y Loteri Genedlaethol ddweud eu dweud ynghylch dyfodol ariannu achosion da. Hyderwn fod ein hymateb yn ddefnyddiol o ran dangos sut rydym yn gweithio mewn perthynas â dosbarthu ariannu i'r achos da treftadaeth, ac y gall ein mewnwelediadau a'n profiad lywio newid yn y dyfodol.

Rydym yn cefnogi'r uchelgeisiau a nodir yn y cais am dystiolaeth – bod y Loteri Genedlaethol yn cefnogi blaenoriaethau'r cyhoedd, bod gan bobl lais o ran ariannu'r Loteri Genedlaethol a'n bod yn lleihau biwrocratiaeth sy'n rhwystro mynediad pobl at fuddsoddi. Rydym wedi ymrwymo i welliant parhaus er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn drwy gydol ein hanes, a chredwn y gall ein profiad wneud cyfraniad gwerthfawr at ddiwygio yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth y DU, ein partneriaid, y sefydliadau a'r cymunedau rydym yn eu cefnogi a'n cyd-ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol i sicrhau bod ariannu achosion da'n addas ar gyfer y dyfodol. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn nodi ffyrdd newydd o weithio a all gefnogi blaenoriaethau'r cais am dystiolaeth. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r gwaith hwn gyda'n partneriaid ac ar draws teulu'r Loteri Genedlaethol.